

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb  
a Llywodraeth Leol

Ymchwiliad i Uwch Gynghrair Cymru

Tachwedd 2012



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliadcymru.org](http://www.cynulliadcymru.org)**

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8505  
Ffacs: 029 2089 8021  
E-bost: [Pwyllgor.CLLL@cymru.gov.uk](mailto:Pwyllgor.CLLL@cymru.gov.uk)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb  
a Llywodraeth Leol

Ymchwiliad i Uwch Gynghrais Cymru

Tachwedd 2012



## Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cynnwys: diwylliant, ieithoedd, cymunedau a threftadaeth Cymru, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau; llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys materion tai; a chyfleoedd cyfartal i bawb.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Ann Jones (Cadeirydd)**  
Llafur Cymru  
Dyffryn Clwyd



**Peter Black**  
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Gorllewin De Cymru



**Janet Finch-Saunders**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Aberconwy



**Mike Hedges**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Abertawe



**Mark Isherwood**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gogledd Cymru



**Bethan Jenkins**  
Plaid Cymru  
Gorllewin De Cymru



**Gwyn R Price**  
Llafur Cymru  
Islwyn



**Ken Skates**  
Llafur Cymru  
De Clwyd



**Rhodri Glyn Thomas**  
Plaid Cymru  
Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr



**Joyce Watson**  
Llafur Cymru  
Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cynnwys

---

<b>Crynodeb o'r Prif Argymhellion.....</b>	<b>5</b>
<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>9</b>
Cylch Gorchwyl.....	9
Dulliau .....	9
<b>2. Cyllid a Materion Llywodraethu.....</b>	<b>11</b>
Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru .....	11
Cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i bêl-droed ac i UGC .....	13
Rôl Cymdeithas Bêl-droed Cymru o gefnogi UGC .....	15
Cynrychiolaeth UGC ar Gyngor Cymdeithas Bêl-droed Cymru.....	17
Casgliadau ac Argymhellion.....	18
<b>3. Uwch Gynghair Cymru .....</b>	<b>21</b>
Seilwaith y clybiau .....	22
Cyfleusterau a chaeau'r genhedlaeth nesaf .....	23
Y drwydded ddomestig.....	26
Amlygrwydd a sylw i UGC gan y cyfryngau .....	27
Torfeydd mewn gemau.....	30
Fformat 12 tîm y gystadleuaeth .....	31
Pêl-droed yn yr haf .....	33
Y clybiau o Gymru sy'n chwarae ym mhyramid Lloegr .....	34
Casgliadau ac Argymhellion.....	36
<b>4. Hyfforddi Chwaraewyr a Hyfforddwyr .....</b>	<b>40</b>
Yr academiâu .....	41
Datblygu hyfforddwyr a chwaraewyr .....	42
Casgliadau ac Argymhellion.....	43
<b>5. Materion Eraill.....</b>	<b>45</b>
Strwythurau rheoli cyngreiriau lleol.....	45
Materion cydraddoldeb.....	46
Statws annibynnol Cymru yn FIFA .....	48
Casgliadau .....	49

<b>Tystion .....</b>	<b>50</b>
<b>Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig .....</b>	<b>51</b>

# Crynodeb o'r Prif Argymhellion

---

## Trosolwg

Mae'n amlwg o'r dystiolaeth a gawsom fod Uwch Gynghrair Cymru (UGC) wedi datblygu llawer ers pan gafodd ei sefydlu, o ran safon y chwaraewyr a'r hyfforddwyr, ac o ran seilwaith y clybiau. Fodd bynnag, er mwyn cynnal y datblygiad hwn, bydd angen rhoi sylw i nifer o faterion, a gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn o gymorth i wneud hynny.

Yn yr adran hon, byddwn yn amlinellu ein hargymhellion mewn pedwar prif faes, sy'n hanfodol er mwyn datblygu pêl-droed yng Nghymru:

- caeau 3/4G;
- y berthynas rhwng Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Llywodraeth Cymru;
- y Model Canolfan Gymunedol ar gyfer clybiau Uwch Gynghrair Cymru;
- y berthynas rhwng Cymdeithas Bêl-droed Cymru a chlybiau Uwch Gynghrair Cymru.

Credwn fod cysylltiad rhwng pob un o'r materion hyn. Gallant hefyd arwain at effaith sylweddol, hirdymor ar gynaliadwyedd y gynghrair. Bydd cyflwyno camau i gynorthwyo UGC yn cael effaith gadarnhaol ar bêl-droed ar lawr gwlad, a bydd gwella pêl-droed ar lawr gwlad, yn ei dro, yn arwain at welliannau naturiol yn UGC.

Yn ystod ein hymchwiliad, cododd tystion nifer o faterion nad ydynt yn rhan o'n cylch gwaith, gan gynnwys strwythur UGC; symud y gynghrair i fisoedd yr haf; a'r sylw a roddir i UGC yn y cyfryngau. Rydym wedi cynnig barn ynglŷn â'r materion hyn, ond nid ydym wedi gwneud argymhellion gan nad ydynt yn faterion i ni.

## Caeau 3/4G

Er nad yw llwyddiant y model canolfan gymunedol yn gwbl ddibynnol ar gael caeau 3/4 G, os yw clwb am gynyddu'r defnydd a wneir o'i gyfleusterau gan y gymuned, am resymau amlwg bydd arno angen arwyneb a all ddygymod â'r cynnydd hwnnw mewn defnydd.

Cawsom lawer o dystiolaeth o'r budd sylweddol y gall caeau 3/4G ei gynnig yn fwy cyffredinol, gan gynnwys y manteision amlwg o ran cymryd rhan mewn chwaraeon a phêl-droed ar lawr gwlad.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ar gyfer datblygu caeau 3/4G ledled Cymru.**

**Argymhelliad: Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac Awdurdodau Lleol edrych ar gyfleoedd i glybiau Uwch Gynghrair Cymru, sy'n dymuno datblygu'r model canolfan gymunedol, gael cymorth ariannol i ddatblygu caeau 3/4G.**

### **Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Llywodraeth Cymru**

Dim ond yn ystod y blynyddoedd diwethaf y mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi datblygu diwylliant mwy eangfrydig. Mae hyn yn amlwg yng nghynllun strategol y Gymdeithas, a gyhoeddwyd yn 2012, ac sy'n nodi uchelgeisiau'r gymdeithas ar gyfer pêl-droed yng Nghymru ac ar gyfer UGC.

Yn ei thystiolaeth, cyfeiriodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru at enghreifftiau o lywodraethau lleol a chanolog yn cefnogi cyrff fel y gymdeithas. Rhaid cydnabod nad oes unrhyw berthynas wedi bod rhwng y gymdeithas a Llywodraeth Cymru yn y gorffennol, ac nid yw'n syndod felly nad yw'r gymdeithas bêl-droed wedi cael y gefnogaeth y mae cyrff mewn gwledydd eraill wedi ei chael. Mae angen cyfnod o ddatblygu perthynas o'r fath, dros y blynyddoedd nesaf, os yw'r gymdeithas am gael cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i gyflawni ei chynllun strategol.

Os yw Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn awyddus i gael cefnogaeth i UGC gan y llywodraeth ganolog neu lywodraeth leol, bydd angen iddi ddangos y gall gyflawni'r agenda bolisi ehangach o gefnogi chwaraeon ar lawr gwlad a gwella lefelau cyfranogi. Credwn fod y gymdeithas yn cymryd camau breision i'r cyfeiriad hwn, yn enwedig â'r cysyniad o glybiau fel canolfannau gymunedol, a'r system academi.

**Argymhelliad: Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru ddatblygu dull cydgysylltiedig o ddatblygu pêl-droed yng Nghymru.**

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru gynnal trafodaethau ynglŷn â sut y gall cefnogaeth i Uwch Gynghrair Cymru helpu i gyflawni polisi'r Llywodraeth.**

### **Model Canolfan Gymunedol**

Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn credu bod y model canolfan gymunedol yn elfen ganolog er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y clybiau ac UGC. Rydym yn cytuno â'r farn hon. Teimlwn y dylai clybiau UGC gael eu gweld fel ffordd wych o sicrhau gwelliannau mewn pêl-droed ar lawr gwlad, yn enwedig o ran y nifer sy'n cymryd rhan.



O ran cefnogaeth ariannol, nid ydym yn credu y gallwn argymell, yn enwedig yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, y dylai UGC gael cefnogaeth uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Fodd bynnag, o ystyried potensial y model canolfan gymunedol, a'i botensial i helpu i gyflawni amcanion polisi ehangach, credwn y dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Llywodraeth Cymru edrych a yw'n bosibl i glybiau sy'n addas ar gyfer y model hwn ddefnyddio adnoddau sy'n bodoli'n barod.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru i ddatblygu strategaeth i amlinellu ei gweledigaeth ar gyfer clybiau Uwch Gynghrair Cymru fel canolfannau cymunedol, er mwyn sicrhau ei bod yn cefnogi'r weledigaeth ehangach o gefnogi pêl-droed ar lawr gwlad ac ehangu cyfranogiad.**

**Y berthynas rhwng Cymdeithas Bêl-droed Cymru a chlybiau Uwch Gynghrair Cymru (a chlybiau yn y cynghreiriau bwydo)**

Un o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg wrth i ni gasglu tystiolaeth, yn enwedig wrth ymweld â chlybiau pêl-droed, oedd teimlad ymhlith y clybiau a'r cefnogwyr bod Cymdeithas Bêl-droed Cymru a'i strategaethau yn amherthnasol i raddau helaeth. Dywedodd y naill unigolyn ar ôl y llall wrthym fod nifer o strategaethau'n cael eu cyflwyno, ond na allent weld unrhyw welliant ar lawr gwlad.

Efallai nad yw effaith y gwahanol strategaethau a mentrau i'w weld eto, ond roedd yn amlwg bod ymdeimlad o anfonlonrwydd ymhlith y rhai y buom ni'n siarad gyda hwy. Mae gan y gymdeithas lawer o waith i'w wneud er mwyn datblygu perthynas rhyngddi hi a'r clybiau. Er bod strategaethau'r gymdeithas yn swnio'n dda ac yn uchelgeisiol ar bapur, ni fyddant yn llwyddo os nad ydynt yn mynd â'r clybiau (a'u cefnogwyr) gyda hwy.

Wrth gwrs, y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu'r berthynas hon yw drwy sicrhau canlyniadau pendant, gweladwy sy'n gwella sefyllfa UGC a'i chlybiau. Fodd bynnag, fel rhan o'r broses credwn fod angen i'r gymdeithas bêl-droed roi blaenoriaeth i gyfathrebu a datblygu perthynas gyda'r clybiau.

**Argymhelliad: Mae angen i Gymdeithas Pêl-droed Cymru roi blaenoriaeth i gyfathrebu a datblygu perthynas gyda chlybiau Uwch Gynghrair Cymru, oherwydd heb eu cydweithrediad hwy, ni fydd yn gallu cyflawni unrhyw un o'i strategaethau.**

## Yr Argymhellion yn Llawn

---

**Argymhelliad 1.** Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru ddatblygu dull cydgysylltiedig o ddatblygu pêl-droed yng Nghymru. Dylai'r Gweinidog Chwaraeon adrodd yn ôl i'r Cynulliad am gynnydd y trafodaethau. (Tudalen 19)

**Argymhelliad 2.** Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Llywodraeth Cymru edrych sut y gall clybiau Uwch Gynghrair Cymru helpu i gyflawni amcanion polisi ehangach ac edrych ar y gefnogaeth, ariannol ac ymarferol, sydd ar gael i'r clybiau i'w galluogi i wneud hynny. (Tudalen 19)

**Argymhelliad 3.** Mae angen i Gymdeithas Bêl-droed Cymru roi blaenoriaeth i gyfathrebu a datblygu perthynas gyda chlybiau Uwch Gynghrair Cymru, oherwydd heb eu cydweithrediad hwy, ni fydd yn gallu cyflawni unrhyw un o'i strategaethau. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru er mwyn datblygu strategaeth i amlinellu ei gweledigaeth o glybiau Uwch Gynghrair Cymru fel canolfannau cymunedol, er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cefnogi'r weledigaeth ehangach o gefnogi pêl-droed ar lawr gwlad ac ehangu cyfranogiad. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ar gyfer datblygu caeau 3/4G ledled Cymru. (Tudalen 37)

**Argymhelliad 6.** Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac Awdurdodau Lleol edrych ar gyfleoedd i glybiau Uwch Gynghrair Cymru, sy'n dymuno datblygu'r model canolfan gymunedol, gael cymorth ariannol i ddatblygu caeau 3/4G. (Tudalen 37)

**Argymhelliad 7.** Fel rhan o fodel Canolfan Gymunedol arfaethedig Cymdeithas Bêl-droed Cymru, dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac Awdurdodau Lleol weithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod y clybiau'n cael cymorth i gyrraedd pob rhan o'u cymunedau. (Tudalen 38)

**Argymhelliad 8.** Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Chwaraeon Cymru edrych sut y gellir defnyddio'r system academi i gefnogi pêl-droed ar lawr gwlad. (Tudalen 44)

**Argymhelliad 9.** Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Chwaraeon Cymru edrych a oes modd cynnig rhagor o gymorth ariannol i gefnogi pobl ifanc sy'n dymuno chwarae pêl-droed, ond sy'n cael anhawster i wneud hynny oherwydd y gofynion ariannol (e.e. costau prynu'r dillad, teithio ac ati). (Tudalen 44)

# 1. Cyflwyniad

---

1. Ar 1 Chwefror 2012 cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i Uwch Gynghrair Cymru (UGC).
2. [Uwch Gynghrair Cymru](#) (sy'n cael ei galw'n Uwch Gynghrair Cymru Corbett Sports ar hyn o bryd) yw'r brif gystadleuaeth bêl-droed ar gyfer clybiau yng Nghymru. Mae'r gynghrair yn rhan o awdurdodaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac mae 24 o glybiau yn aelodau ohoni. Pwrpas ymchwiliad y Pwyllgor oedd edrych ar lwyddiant y gynghrair yn ystod ei chyfnod o 20 mlynedd a sut y mae'n cyfrannu tuag at chwaraeon a phêl-droed yng Nghymru heddiw. Roedd cyhoeddi Cynllun Strategol trosfwaol Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn Ionawr 2012 a phenodi ysgrifennydd newydd i Uwch Gynghrair Cymru'n gwneud y gwaith hwn yn amserol iawn.

## Cylch Gorchwyl

3. Cylch gorchwyl yr ymchwiliad oedd archwilio'r canlynol:
  - i ba raddau y mae safonau pêl-droed yn UGC wedi datblygu dros yr 20 mlynedd diwethaf;
  - fformat y gystadleuaeth, ac opsiynau posibl eraill, fel symud i dymor yr haf;
  - datblygiad a chynnydd chwaraewyr, hyfforddwyr a rheolwyr o UGC i gyrraedd lefelau eraill yn y gêm;
  - sut y bydd UGC yn cyfrannu tuag at ddatblygu chwaraewyr ac at gymryd rhan yn y gêm ar lefelau is, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â chyfleoedd cyfartal;
  - safle UGC yn y byd chwaraeon yng Nghymru a pha mor weladwy yw yn y cyfryngau yng Nghymru;
  - y clybiau sy'n aelodau o'r gynghrair, eu seilwaith a'u hadnoddau; a
  - sut y bydd Cynllun Strategol 2012 Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn helpu i gryfhau UGC, a sut y bydd UGC yn cyfrannu tuag at amcanion y Cynllun Strategol.

## Dulliau

4. Cyhoeddasom gais am dystiolaeth ar 5 Mawrth 2012. Cafwyd 29 o gyflwyniadau ysgrifenedig. Mae'r cyflwyniadau ysgrifenedig i'w gweld yma.<sup>1</sup>

---

<sup>1</sup> <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?IId=3280>

5. Gwahoddwyd 16 o dystion i roi tystiolaeth lafar mewn 4 cyfarfod. Mae manylion y tystion a ymddangosodd, y trawsgrifiadau a'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiadau A, B ac C yn y drefn honno.
6. Mae agendâu, papurau a thrawsgrifiadau ar gyfer pob cyfarfod ar gael yn llawn ar dudalennau'r Pwyllgor ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael mynediad i'r wefan yma.<sup>2</sup>
7. Cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghlwb Pêl-droed Llanelli ac yng Nghlwb Pêl-droed Llandudno. Ymwelodd aelodau o'r Pwyllgor hefyd â Chlwb Pêl-droed y Drenewydd a Chlwb Pêl-droed y Seintiau Newydd.

---

<sup>2</sup> <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=226>

## 2. Cyllid a Materion Llywodraethu

---

### Cyflwyniad

8. Ar 26 Ionawr 2012, cyhoeddodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru ei Chynllun Strategol newydd ar gyfer y dyfodol, gan nodi sut y mae'n bwriadu datblygu pêl-droed yng Nghymru, gyda'r nod yn y pen draw o lwyddo ar y lefel uchaf.<sup>3</sup> Mae'r strategaeth yn amlinellu sut y mae pob rhan o waith y Gymdeithas ym maes pêl-droed yn bwriadu cyfrannu tuag at hyn. Rhoddir pwyslais penodol ar waith tîm, cyfathrebu, esblygiad, ac enill. O ran UGC, mae'r cynllun yn nodi mai rhan o weledigaeth y gymdeithas bêl-droed yw 'Uwch-gynghrair a chystadlaethau domestig sy'n chwarae rhan amlwg yn y byd chwaraeon yng Nghymru'. Mae'r strategaeth hefyd yn dweud y bydd y gymdeithas yn ceisio 'hybu safon y ddwy Gynghrair flaenllaw, a'r diddordeb a'r sylw a roddir iddynt' (UGC ac Uwch Gynghrair y Merched). Bydd hyn yn cynnwys parhau i ddarlledu yn fyw o gemau UGC.

### Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru

9. Awgrymodd John Loosemore o Gorff Trwyddedu'r gymdeithas bêl-droed nad yw'r berthynas rhwng y gymdeithas, y Cynulliad a Llywodraeth Cymru wedi bod yn effeithiol iawn yn y gorffennol, ond bod arwyddion o welliant i'w gweld:

"My sense is that things in the FAW are moving forward. I am an outsider, but I sense that things are moving forward. I hope that it would move forward in conjunction with the Assembly. I do not know whether there has been too much dialogue in the past. I have not been party to any of that, but, looking as an outsider, one wonders whether there has been. However, I hope that this is the beginning of a continuing dialogue and I hope that it does not just stop at chat and that it results in real growth for Welsh football."<sup>4</sup>

10. Pan ofynnwyd i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth wneud sylwadau ynglŷn â'r berthynas hon dywedodd:

"They are cordial and constructive and are undergoing a process of change. That process of change is the critical thing. There is recognition that we are interdependent when it comes to the development of football, and that Government is not a cash machine for football to access. There is

---

<sup>3</sup> Cymdeithas Bêl-droed Cymru, [Cynllun Strategol](#), Ionawr 2012 [darllenwyd 26 Ionawr 2012]

<sup>4</sup> Tystiolaeth Lafar, 9 Mai 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8009/9%20May%202012.pdf>

recognition that we have an agenda and that we represent the communities in which football is embedded and takes place. We seek to be open to the agendas with which the FAW or the WPL may come to us, whether they are driven by excellence or by a need for facilities.

“The impression that I have gained over the past year in this job is that this is quite a young conversation as yet, despite the fact that devolution is more than a decade old. There is huge potential here for getting things right, but people must come to the table with the realisation that they are a part of the Welsh footballing or sporting community and they do not have any exclusive rights over the way that things develop. They have a very important and valued voice, that is for sure, but there is a relationship that has still yet to be worked out between local government, the Welsh Government and these various sporting organisations.”<sup>5</sup>

#### 11. Ymhelaethodd Dr Huw Jones o Chwaraeon Cymru ar y pwynt hwn:

“Relationships have changed enormously. I recall giving evidence before Rosemary Butler’s culture committee some four or five years ago and I was enormously critical, at that time, of the FAW, its strategic thinking and the way in which it had not changed as an organisation. I felt that it was moribund and needed to look at its governance structure and a whole host of things. The Assembly voted on that and there were lots of concerns. To its credit, the FAW has changed. Under the leadership of the current president, Phil Pritchard, supported by Jonathan Ford, the chief executive, there have been changes. That does not mean that everything is fine and hunky-dory and that there does not necessarily need to be continuing change, but it is very much on the right road. We have very constructive relationships. We would not invest in it to a significant degree if we did not believe that it could deliver at the end of the day. We do not invest in people because they happen to be there; we invest in them because they deliver on the agenda that the Government wants us to deliver. The relationship as I have been describing it in terms of the 3G issue and how we are trying to work with other sports and local authorities on the strategic agenda illustrates the very constructive relationship between the Welsh Football Trust, the FAW, us and local authorities. The role of the

---

<sup>5</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

Welsh Premier League within that is a unique one, and it is unique to a particular area of footballing interest.”<sup>6</sup>

### **Cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i bêl-droed ac i UGC**

12. Un o'r themâu a godwyd gan dystion oedd diffyg cefnogaeth yn ôl pob golwg gan Lywodraeth Cymru i seilwaith pêl-droed yng Nghymru. Dywedodd Jonathan Ford o Gymdeithas Bêl-droed Cymru wrth y Pwyllgor:

“I can quote many examples from around Europe of Governments working very closely with sporting bodies to ensure that money is invested. Forgive me, but there is very little from the Welsh Government going into sporting infrastructure. It needs to change [...]”<sup>7</sup>

13. Dywedodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru fod y dull gweithredu hwn yn gwbl wahanol i lawer o wledydd eraill lle mae'r llywodraeth ganolog a llywodraeth leol wedi cymryd camau gweithredol i wella eu prif gynghreiriau yn ogystal â phêl-droed yn fwy cyffredinol:

“The FAI [Football Association of Ireland] has received 35 million Euros from the Government to raise participation [...]”

“Monies invested into Football in most other UEFA Countries outweigh that of the investment of local councils and the Welsh Assembly Government here in Wales.

“This year the Irish Government continues with its £110 million ground investment scheme to upgrade football, rugby and Gaelic stadia and the Turkish Government has just announced that they will fund the installation of 350 3G pitches.

“The Football Foundation in England was founded in 2000 and is jointly funded by the Premier League, the FA and Government and invests £30 million every year in grass roots and community projects.”<sup>8</sup>

---

<sup>6</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

<sup>7</sup> Tystiolaeth Lafar, 25 Ebrill 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s7562/25%20April%202012.pdf>

<sup>8</sup> WPL 19,

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s7158/Consultation%20Response%20-%20CELG4%20WPL%2012%20Football%20Association%20of%20Wales.pdf>

14. Yn UGC ei hun, dywedodd Clwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i helpu clybiau i ddod o hyd i ffynonellau cyllid:

“Apart from direct funding, practical support for clubs must be considered. As most Premier League clubs are run by volunteers, there is often no specialist knowledge in searching for additional funding sources [...]

“Clubs need a clear list of funding sources, with additional assistance on how to fill in the application forms in order to utilise these sources.”<sup>9</sup>

15. Yn yr un modd, gofynnodd yr ystadegydd, Mel Thomas, a ellid defnyddio'r cyllid sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau cymunedol ar hyn o bryd i gynorthwyo clybiau UGC:

“Co-ordination is what we would be looking for. Any community projects being run by the Welsh Assembly Government could be keyed in, in part, to the local Welsh Premier League club, which would, itself, be adding money to the pot. That is one way that the Welsh Government could help [...]”

“I respect the fact that the Welsh Government is restricted in what it can provide, but, by possibly looking at what is already set up under the Welsh Government, the clubs themselves could be involved in some of those projects.”<sup>10</sup>

16. Ymatebodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth drwy ddweud wrth y Pwyllgor bod dros £800,000 o'r £6 miliwn o gyllid sy'n cael ei ddarparu gan Chwaraeon Cymru i Gyrrff Llywodraethu Cenedlaethol chwaraeon yng Nghymru wedi'i ddyrannu i Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru yn 2012-13. Defnyddir y cyllid hwn i gefnogi addysg hyfforddwy, i gynyddu cyfraddau cymryd rhan ac i feithrin ein chwaraewyr ifanc mwy talentog. Dywedodd y Gweinidog fod y swm sy'n cael ei fuddsoddi gan Chwaraeon Cymru mewn pêl-droed yn llawer mwy na'r gefnogaeth sy'n cael ei rhoi i chwaraeon eraill, fel rygbi.

17. Er hyn, cydnabu'r Gweinidog nad yw UGC a'r gêm broffesiynol yng Nghymru'n cael unrhyw gefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Eglurodd fod cyllid i bêl-droed yng Nghymru'n cael ei dargedu'n benodol tuag at bêl-droed ar lawr gwlad:

---

<sup>9</sup> Gwybodaeth ychwanegol gan Glwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin, <http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8498/Additional%20Written%20Information%20-%20CELG4%20Carmarthen%20Town%20AFC.pdf>

<sup>10</sup> Tystiolaeth Lafar, 9 Mai 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8009/9%20May%202012.pdf>



“On this sort of spend and the priorities of Sport Wales and the Welsh Government, we are clearly about development at the grass roots, the future, and reaching out to groups within Welsh society that have perhaps traditionally not been drawn into the fold when it comes to particular sports [...]

“The Welsh Premier League is something of a unique organisation in terms of the way in which most countries would organise their football structure. It is engaged with the professional game and the primary focus for us, quite rightly, is in expanding the grass roots of the game [...] So, in the best of all possible worlds, I suppose the Welsh Premier League and others could be talking about deserving direct Welsh Government support, but I do not know whether that is necessarily the first priority. I think that we have our priorities straight on this [...]”<sup>11</sup>

#### 18. Ymhelaethodd Dr Huw Jones o Chwaraeon Cymru ar hyn:

“Y cwestiwn y dylem ei ofyn a cheisio ei ateb wrth ymateb i’ch cwestiwn [...] yw: beth fyddai’r rheswm y tu ôl i ariannu Uwch-gynghrair Cymru? Beth fyddai’r pwrpas o wneud hynny? Mae gennym ddau amcan. Un ohonynt yw cael mwy o blant, pobl ifanc ac oedolion i gymryd rhan mewn chwaraeon, a phêl-droed yn arbennig yma. Yr amcan arall yw codi safonau. Felly, beth fyddai pwrpas ariannu Uwch-gynghrair Cymru o ran cyfrannu at un neu ddau o’r amcanion hynny? Yr ateb yw bod ffyrdd gwahanol o gyflawni’r amcanion hynny: drwy’r ymddiriedolaeth, fel y dywedodd y Gweinidog, a thrwy awdurdodau lleol, ond nid drwy’r uwch-gynghrair. Rwy’n cydnabod ein bod am weld arian yn cael ei fuddsoddi mewn cyfleusterau yn yr uwch-gynghrair, ond mae hynny’n fater i’r uwch-gynghrair, ac nid yn fater i’r sector cyhoeddus ac i ni fel sefydliad yn unig.”<sup>12</sup>

### **Rôl Cymdeithas Bêl-droed Cymru o gefnogi UGC**

19. Roedd rhai o’r cyflwyniadau i’r ymchwiliad yn dweud y gallai’r Gymdeithas Bêl-droed ei hun wneud mwy i gefnogi UGC, yn enwedig o safbwynt ariannol, gweinyddol ac ymarferol. Roedd eraill yn beirniadu’r ffaith nad oedd cynllun strategol i sefydlu UGC fel endid cryf a phroffesiynol ac i ddatblygu’r gynghrair fel cynnyrch y gellir ei farchnata’n llwyddiannus.

---

<sup>11</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

<sup>12</sup> Ibid

20. Roedd Clwb Pêl-droed Dinas Bangor hefyd yn feirniadol o'r ffaith ei bod yn ymddangos bod cyllid Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru ar gyfer gwella cyfleusterau ar gael i glybiau'r cynghreiriau is yn unig, ac nid i'r rhai yn UGC:

"It seems to me that the Welsh Football Trust at the moment [...] has said that there is currently no funding for the Welsh Premier League clubs and that it is all for the lower leagues. That does not make any sense to me. For example, would it be worth us being relegated for a season so that we can get funding to improve our ground? Where is the logic in that? There is no logic to that."<sup>13</sup>

21. Eglurodd Jonathan Ford o Gymdeithas Bêl-droed Cymru beth oedd y rheswm dros hyn:

"In the last few seasons, we have directed funding to the lower league clubs. The rationale for that is that when we set out the Welsh ground improvements, we needed to concentrate on the tier 1 clubs, in other words, the premier league clubs, because the licensing programme had come into place. Now that they have managed to achieve the standards for the licence, we wanted to ensure that the moneys were directed down to the lower leagues so that they have a promotional opportunity. To go back to the previous question, if the clubs do not have the grounds available, they cannot adhere to the standards of the licensing programme and that means no promotion or relegation. So, we have directed our funding down to the feeder clubs to ensure that there are likely to be greater promotion or relegation opportunities, because they hit the licensing standards. We just do not have enough money."<sup>14</sup>

22. Yn y cyd-destun hwn, roedd llawer o dystion yn bryderus ynglŷn â diffyg llwyddiant timau UGC mewn cystadlaethau Ewropeaidd, a'r effaith y mae hynny'n ei gael ar safle'r gynghrair yn nhablau cyfernodau UEFA. O ganlyniad, galwasant am fwy o gefnogaeth gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru i'r timau hynny, drwy drefnu gemau, darparu cyfleusterau a chynorthwyo â pharatoadau. Ymatebodd Gwyn Derfel o UGC drwy ddweud:

"In my time here, and looking back at last season, the FAW has contacted all the European-qualified clubs to ask them what assistance they wanted, and they were given that assistance. Obviously, it was not significant

---

<sup>13</sup> Tystiolaeth Lafar, 9 Mai 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8009/9%20May%202012.pdf>

<sup>14</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

financial assistance, which is what the clubs are probably asking for, but with regard to coaching, help with travel arrangements and explaining what was required, those services were offered. I have already contacted the clubs that have qualified for European campaigns this year and have offered to help them with any assistance that they require.”<sup>15</sup>

23. Yn yr un modd, dywedodd Jonathan Ford:

“We offer financial assistance to all of those clubs. Given the costs of travelling abroad to the away legs, we give advances to these clubs on their prize money—we have done that for several years, and I have just approved three such loans, and they are being advanced to the clubs that sought them, so that they can now afford their away travel.

“Organising friendlies is normally done at club level. It is a very good idea and something that we will absolutely try to support wherever we can.”<sup>16</sup>

### **Cynrychiolaeth UGC ar Gyngor Cymdeithas Bêl-droed Cymru**

24. Dywedodd rhai tystion mai un o’r anawsterau a oedd yn wynebu UGC oedd y ffaith mai dim ond un cynrychiolydd o UGC sydd ar Gyngor y gymdeithas bêl-droed. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i’r clybiau sicrhau’r newidiadau y byddent yn hoffi eu gwneud er mwyn gwella’r gynghrair. Ar fater cysylltiedig, roedd Clwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin yn feirniadol o’r gefnogaeth a ddarparwyd gan Gyngor y gymdeithas bêl-droed i UGC yn y cyswllt hwn:

“[Mae] [...] diffyg parch, mewn ffordd, gan [Gyngor] y gymdeithas bêl-droed at Uwch-gynghrair Cymru. Mae pobl dda yn y gymdeithas bêl-droed, ond roeddent yn rhan ohoni cyn i Uwch-gynghrair Cymru ddechrau. Nid oes ganddynt brofiad yn rhedeg clybiau Uwch-gynghrair Cymru ac felly rydym yn colli mas gan nad oes gennym lais digon cryf yn y gymdeithas bêl-droed. Tan fod hynny’n digwydd, ni allwn wella’r hyn sydd gennym. Mae eisiau ei wneud yn llawer mwy deniadol, a’r clybiau sy’n gwybod orau sut mae gwneud hynny, nid y gymdeithas bêl-droed, yn fy marn i.”<sup>17</sup>

25. Ymatebodd Jonathan Ford o Gymdeithas Bêl-droed Cymru i hyn drwy ddweud:

“I will make two points on this: first, we are an organisation, like many sport organisations, with a structure in place whereby there is a particular

---

<sup>15</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

<sup>16</sup> Ibid

<sup>17</sup> Tystiolaeth Lafar, 9 Mai 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8009/9%20May%202012.pdf>

council. We are no different from rugby or athletics—they have the same structures. A lot of sports are run in a similar manner, because they were volunteer organisations before they became successful and needed to employ people like me and Gwyn, and so that structure remains. Many of those people have been working in football for 20, 30 and 40 years on a purely voluntary basis. Without them, domestic football would not exist in this country. If those people were not there, running their leagues, clubs and area associations, domestic football would not exist and I take my hat off to them for the amount of work and effort that they put into that. I ask of a lot of people when they are criticised, ‘What are you doing yourselves?’ Many people criticise them, but do not do anything themselves. If those people can turn around and say that they volunteer for this and that, then fine, they are doing their bit, but an awful lot of people who criticise do not do their bit, and so I would say, ‘Hang on a second, you need to do something yourself.’

“You mentioned that the WPL has only one representative. I am pleased to say that, within the FAW strategy, which we launched with the First Minister this year, there is an important aspect with regard to the governance of the association. It comes under three points. First, the FAW is to rewrite the articles of the association. Done. Secondly, we need to redraft and rewrite the rules of the association. Done; they come into play from August. The third most important area is the governance review that we will be going through. The governance review should question the idea as to the appropriate representation of football in this country on our council. I would probably be happy to go on record and say that I do not think that it is quite fair at this moment in time.”<sup>18</sup>

## **Casgliadau ac Argymhellion**

### ***Y berthynas rhwng Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Llywodraeth Cymru***

26. Cawsom dystiolaeth nad yw'r berthynas rhwng y gymdeithas bêl-droed a Llywodraeth Cymru wedi bod yn effeithiol yn y gorffennol, ond roeddem yn falch o glywed bod y sefyllfa hon wedi gwella llawer yn ddiweddar.

27. Mae hwn yn fater pwysig, oherwydd mae cydgysylltu rhwng yr holl gyrff perthnasol, gan gynnwys y gymdeithas bêl-droed, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth leol, yn hanfodol er mwyn datblygu pêl-droed ar bob lefel yng

---

<sup>18</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

Nghymru. Rydym yn derbyn y bydd gan bob corff ei flaenoriaethau, ond credwn y bydd yr effaith yn fwy fyth os gall y cyrff hyn weithio gyda'i gilydd.

**Argymhelliad: Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru ddatblygu dull cydgysylltiedig o ddatblygu pêl-droed yng Nghymru. Dylai'r Gweinidog Chwaraeon adrodd yn ôl i'r Cynulliad am gynnydd y trafodaethau.**

### ***Cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i bêl-droed ac i UGC***

28. Nid ydym yn teimlo, ar hyn o bryd, y gallem argymhell y dylai UGC gael cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Un o'r anawsterau, fel y nodwyd gan dystion mewn tystiolaeth, â'r cwestiwn a ddylai UGC gael cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cymru ai peidio yw natur cynghrair o'r fath. Nid un endid yw cynghrair. Mae'n cynnwys nifer o wahanol glybiau, ac mae blaenoriaethau pob un yn wahanol.

29. Nid ydym yn teimlo y dylai UGC (fel endid) gael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru na Chwaraeon Cymru. Rydym yn cytuno y dylai Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru roi blaenoriaeth i gefnogi pêl-droed ar lawr gwlad, ac annog plant ac oedolion i gymryd rhan.

30. Er hyn, credwn fod gan glybiau UGC rôl i'w chwarae er mwyn sicrhau gwelliannau yn y meysydd y cyfeiriwyd atynt uchod. Byddai hyn wedyn yn rhoi mwy o gyfle i glybiau UGC fanteisio ar y gefnogaeth ariannol sydd ar gael ar hyn o bryd, a chefnogaeth arall, er mwyn datblygu'r syniadau hyn. Mae model y gymdeithas bêl-droed o'r clwb fel "Canolfan Gymunedol" yn enghraifft wych o hyn. (Rydym yn rhoi ystyriaeth bellach i hyn ym Mhennod 3).

**Argymhelliad: Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Llywodraeth Cymru edrych sut y gall clybiau Uwch Gynghrair Cymru helpu i gyflawni amcanion polisi ehangach ac edrych ar y gefnogaeth, ariannol ac ymarferol, sydd ar gael i'r clybiau i'w galluogi i wneud hynny.**

### ***Y Berthynas rhwng Cymdeithas Bêl-droed Cymru a chlybiau UGC (a chlybiau yn y cynghreiriau bwydo)***

31. Un o'r prif themâu a ddaeth i'r amlwg wrth i ni gasglu tystiolaeth, yn enwedig wrth ymweld â chlybiau pêl-droed, oedd teimlad ymhlith y clybiau a'r cefnogwyr bod Cymdeithas Bêl-droed Cymru a'i strategaethau yn amherthnasol i raddau helaeth. Dywedodd y naill unigolyn ar ôl y llall wrthym fod nifer o strategaethau'n cael eu cyflwyno, ond na allent weld unrhyw welliant ar lawr gwlad.

32. Efallai nad yw effaith y gwahanol strategaethau a mentrau i'w weld eto, ond roedd yn amlwg bod ymdeimlad o anffodlonrwydd ymhlith y rhai y buom ni'n siarad gyda hwy. Mae gan y gymdeithas bêl-droed lawer o waith i'w wneud er mwyn datblygu perthynas rhyngddi hi a'r clybiau. Er bod strategaethau'r gymdeithas yn swnio'n dda ac yn uchelgeisiol ar bapur, ni fyddant yn llwyddo os nad ydynt yn mynd â'r clybiau (a'u cefnogwyr) gyda hwy.

33. Wrth gwrs, y ffordd fwyaf effeithiol o ddatblygu'r berthynas hon yw drwy sicrhau canlyniadau pendant, gweladwy sy'n gwella sefyllfa UGC a'i chlybiau. Fodd bynnag, fel rhan o'r broses credwn fod angen i'r gymdeithas bêl-droed roi blaenoriaeth i gyfathrebu a datblygu perthynas gyda'r clybiau.

**Argymhelliad: Mae angen i Gymdeithas Pêl-droed Cymru roi blaenoriaeth i gyfathrebu a datblygu perthynas gyda chlybiau Uwch Gynghrair Cymru, oherwydd heb eu cydweithrediad hwy, ni fydd yn gallu cyflawni unrhyw un o'i strategaethau.**

#### ***Rôl Gymdeithas Bêl-droed Cymru yn cefnogi UGC a chynrychiolaeth yr uwch gynghrair ar Gyngor y gymdeithas bêl-droed***

34. O ran rôl y gymdeithas bêl-droed yn cefnogi UGC, teimlwn fod gan y gymdeithas le i ddatblygu strategaeth benodol ar gyfer UGC. Mae hyn yn arbennig o bwysig os yw'r gymdeithas am i glybiau ddatblygu'r model canolfan gymunedol.

35. Dylai strategaeth o'r fath hefyd amlinellu'r cymorth sydd ar gael i glybiau ddatblygu (e.e. cymorth i farchnata).

36. O ran cynrychiolaeth UGC ar gyngor Gymdeithas Bêl-droed Cymru, credwn fod hwn yn fater y mae angen ei ystyried ymhellach ac rydym yn falch y bydd yn rhan o'r adolygiad o drefniadau llywodraethu Gymdeithas Bêl-droed Cymru.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru er mwyn datblygu strategaeth i amlinellu ei gweledigaeth o glybiau Uwch Gynghrair Cymru fel canolfannau gymunedol, er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cefnogi'r weledigaeth ehangach o gefnogi pêl-droed ar lawr gwlad ac ehangu cyfranogiad.**

### 3. Uwch Gynghrair Cymru

---

#### Cyflwyniad

37. Sefydlwyd Uwch Gynghrair Cymru (UGC) fel 'Cynghrair Cymru' yn nhymor 1992-93 gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru. Nid oedd gan Gymru ei chynghrair bêl-droed genedlaethol ei hun cyn hyn. Trefnid cystadlaethau cynghrair ar sail ranbarthol, a'r unig gystadlaethau gwirioneddol genedlaethol oedd cystadlaethau cwpan (fel Cwpan Cymru) lle'r oedd clwb allan o'r gystadleuaeth os oedd yn colli.

38. Ar ôl i wledydd y bloc dwyreiniol ymwahanu ar ddechrau'r 1990au, gan greu nifer o dimau pêl-droed cenedlaethol newydd yn Ewrop, ac yn sgîl pwysau o gyfeiriadau eraill yn y byd pêl-droed, teimlid bod statws tîm pêl-droed cenedlaethol Cymru wedi mynd yn fregus.<sup>19</sup> Roedd Cymru eisoes yn unigryw i ryw raddau, o'i chymharu â chymdeithasau Ewropeaidd eraill, gan nad oedd ganddi ei chynghrair bêl-droed genedlaethol ei hun. Cymhlethdod arall oedd y ffaith fod timau o drefi a dinasoedd Cymru wedi arfer chwarae yng nghynghrair bêl-droed Lloegr. Yn ogystal â thimau Abertawe, Caerdydd a Wrecsam, sy'n chwarae yng nghynghrair Lloegr ers blynnyddoedd, roedd y rhain yn cynnwys timau sy'n chwarae ar lefelau is ym 'mhyramid' pêl-droed Lloegr.

39. Ar ôl sefydlu Cynghrair Cymru, gorchynnodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru y dylai nifer o'r timau hyn ymuno â'r drefn newydd. Ymunodd llawer ohonynt, ond gwrthododd eraill, gan fod yn well ganddynt aros yn system gynghrair Lloegr. O ganlyniad, cawsant eu 'halltudio' i bob pwrpas gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru a'u gorfodi i chwarae eu gemau cartref dros y ffin. Cynhaliwyd nifer o achosion llys ymrannol yn dilyn hyn, cyn i'r timau gael caniatâd yn y diwedd i ddod yn ôl i Gymru i chwarae (er bod llawer wedi penderfynu aros yn rhan o byramid Lloegr). Roedd ffurfio UGC fodd bynnag yn golygu cynnydd yn nifer y clybiau o Gymru a oedd yn chwarae yng nghystadlaethau Ewropeaidd UEFA, fel Cynghrair y Pencampwyr a Chynghrair Europa.

40. Yn ddaearyddol, mae'r clybiau sy'n perthyn i'r gynghrair ar y cyfan yn dod o wahanol rannau o Gymru, er bod nifer sylweddol ohonynt o ganolbarth, gogledd a gorllewin Cymru. Ac eithrio ym mlynnyddoedd cynnar y gynghrair, ychydig iawn o glybiau o ranbarth y de-ddwyrain a'r canolfannau poblog mawr sydd wedi bod yn y gynghrair.

41.

---

<sup>19</sup> Uwch Gynghrair Cymru, [A brief history of the league](#), [darllenwyd 12 Ebrill 2012]

42. Y problemau mwyaf i glybiau UGC, fel ar bob lefel ym myd pêl-droed, yw problemau ariannol. Er mwyn ymuno â'r gynghair, rhaid i glybiau feddu ar drwydded clwb domestig ddilys gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru, sy'n gofyn iddynt fodloni nifer o feini prawf sydd â goblygiadau ariannol.<sup>20</sup> Mae'r rhain yn cynnwys meini prawf ar gyfer y stadiwm (megis capasiti, llifoleuadau a stiwdio deledu), sefydlu academi ieuenctid a rhai gofynion gweinyddol a chyfreithiol. Fodd bynnag, mae'n anorod na fydd rhai clybiau'n gallu bodloni'r safonau hyn oddi ar y cae, ni waeth pa mor dda yw eu staff chwarae, ac mae hyn wedi golygu bod timau'n methu â chael dyrchafiad i UGC a bod clybiau'n gwrthod derbyn dyrchafiad i'r gynghair gan na fyddai'n ymarferol iddynt uwchraddio eu cyfleusterau am resymau ariannol.

43. Problem arall i glybiau yw nifer y bobl sy'n mynd i wyllo gemau, gan fod llawer o ddarpar wylwyr yn cymryd rhan mewn chwaraeon eu hunain ar brynhawn dydd Sadwrn, ac eraill yn dewis gwyllo pêl-droed neu chwaraeon eraill ar lefelau uwch. Mae llawer o glybiau wedi arbrofi ag amseroedd cychwyn gwahanol yn y gorffennol i geisio mynd i'r afael â'r broblem hon, ond mae cyfartaledd y gwylwyr yn dal yn gymharol isel.<sup>21</sup>

44. Mae problem clybiau o Gymru'n chwarae y tu allan i byramid pêl-droed Cymru'n bodoli o hyd hefyd. Edrychwyd ar y posibilrwydd o gael y clybiau hyn i chwarae 'ail' dîm yn UGC yn y gorffennol.<sup>22</sup> Mae'n debyg y byddai hyn yn arwain at gymhlethdodau wrth i glwb chwarae timau mewn dwy gystadleuaeth gynghair genedlaethol wahanol, o safbwynt gweinyddol, ac o safbwynt y clybiau sy'n aelodau o'r gynghair ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n dal yn destun dadl i lawer.

### Seilwaith y clybiau

45. Er bod y drwydded ddomestig wedi'i chyflwyno, roedd llawer o dystion yn dal yn bryderus ynglŷn â'r diffyg adnoddau a chyfleusterau a oedd ar gael yng nghlybiau UGC. Er eu bod yn cydnabod bod y sefyllfa wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd S4C yn enwedig yn feirniadol o safon y llifoleuadau a'r cyfleusterau ffilmio. Yn y cyfamser, mae nifer o dystion wedi tynnu sylw at hen broblem yn y gynghair, sef ansawdd gwael y caeau. Dywedodd Rondo Media:

46.

---

<sup>20</sup> Cymdeithas Bêl-droed Cymru, [Trwyddedu clybiau](#) [darllenwyd 12 Ebrill 2012]

<sup>21</sup> Gwefan Welsh Premier Football, [Welsh Premier Historical average gates](#) [darllenwyd 12 Ebrill 2012]

<sup>22</sup> BBC News, [Welsh exiles' Europe plan pitched](#), 9 Ionawr 2008 [darllenwyd 12 Ebrill 2012]



“Mae safon y cynnyrch, sef chwarae pêl-droed, yn ddibynnol ar ansawdd y caeau, ac er bod cyflwr cae ambell glwb wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, yn gyffredinol, mae angen gwella mawr ar ansawdd caeau yng Nghymru.”<sup>23</sup>

47. Mae rhai wedi galw ar Gymdeithas Bêl-droed Cymru i ddechrau helpu clybiau yn y cyswllt hwn, gan ddweud bod ansawdd y caeau yn un o'r prif resymau pam nad yw safon pêl-droed yn gwella. Cydnabu'r gymdeithas y broblem hon yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, ond nododd unwaith eto fod y ffaith ei bod yn anodd cael arian cyfatebol i'w phrosiectau'n achosi rhwystr:

“Whilst there is much being done to continue to raise the standards in Welsh domestic football, the club and ground infrastructure is below standard.

“Almost all grounds in the WPL and other leagues throughout Wales are either fully owned or rented from local councils. The costs of maintaining and upgrading these facilities are hindered by the lack of investment from other parties.

“This often means that playing surfaces are not maintained to the level which will encourage further development in playing standards – which will in turn enhance the reputation of our National League and increase participation levels.

“The FAW has investment up to £600,000 per annum through the sister company, Welsh Ground Improvement (WGI) in addition to the other initiatives mentioned, but has not been successful in persuading local or national Government of the importance of on-going and match funding investments.”<sup>24</sup>

### **Cyfleusterau a chaeau'r genhedlaeth nesaf**

48. Yn ôl Gwyn Derfel o Gymdeithas Bêl-droed Cymru, gallai cyflwyno caeau 3G a 4G ar feysydd UGC 'weddnewid holl glybiau UGC' a gallai 'greu incwm a diddordeb yn y clwb'. Cyfeiriodd at wledydd fel Twrci, Sweden a Gogledd Iwerddon sydd i gyd â strategaethau penodol ar gyfer gosod caeau 3G/4G ac sydd

---

<sup>23</sup> WPL 22,

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s7867/Ymateb%20ir%20Ymgynghoriad%20-%20CELG4%20WPL%2022%20Rondo%20Media.pdf>

<sup>24</sup> WPL 12,

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s7158/Consultation%20Response%20-%20CELG4%20WPL%2012%20Football%20Association%20of%20Wales.pdf>

i gyd yn darparu swm sylweddol o arian gan y llywodraeth i'r diben hwnnw. Gwnaeth Jonathan Ford o Gymdeithas Bêl-droed Cymru bwynt tebyg drwy alw am fwy o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn:

"I would love to see a 3G facility at every premier league club throughout this country. That is a programme that I have started to work on, so it is in its formation at the moment, but I would love the Welsh Government's investment assistance to make that a reality. It would take football forward in this country immensely.

"We are desperate for help from other investment partners [...] If we could have more investment in facilities, particularly in helping us to match fund any funding to do with artificial surfaces and the 3G plans that we are looking to put in place it would have a significant impact [...]

"Our turnover is just under £10 million per year. We are putting good percentages into infrastructure, but that is just scratching the surface. The problem that we have had over those years is that none of those funds have been matched to any great degree. Of course, one of the things that I would desperately be trying to do in the future is to find matching partners through local government and national Government to ensure that you invest in the same way as a lot of other countries around Europe invest in infrastructure [...]

"It will be a long project, for sure, and I understand that. We need to bring everyone together, and we need to ensure that there are appropriate business plans put in place. In the Welsh Premier League clubs alone, many of them already have the facilities, desire or opportunity for conversions ... We are pushing against an open door here with the clubs and local authorities, and if we can do that together, we will be successful."<sup>25</sup>

49. Pwysleisiodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru fanteision aruthrol gosod caeau 3G/4G yng nghlybiau UGC, yn enwedig os yw'r caeau'n eiddo i awdurdodau lleol. Gallai'r rhain i gyd wedyn ddod yn ganolfannau cymunedol gwerthfawr sy'n cynhyrchu incwm:

"The main costs to LAs will be facility provision because the majority of WPL clubs play on council owned pitches. Due to the fact that many councils now have a decommissioning strategy to close down costly and

---

<sup>25</sup> Tystiolaeth Lafar, 25 Ebrill 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s7562/25%20April%202012.pdf>

under used facilities it would be beneficial to clubs and communities and a prudent financial investment to position 3G/4G pitches as they produce a revenue stream and can absorb activity from 6 to 8 grass pitches.

“This 3G/4G strategy with the 12 WPL clubs becoming community hubs for all sections of society would benefit and strengthen community links, health, civil obedience and make the clubs far more sustainable.

“Due to the fact that 3G/4G pitches generate income - no further investment would be required once the 9 year life span of each pitch came to an end. The total, one off investment, to introduce 3G/4G pitches to all WPL clubs, either as first team pitches or training facilities for club and community would cost a maximum of £5 million.”<sup>26</sup>

50. Ymatebodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i’r pwyntiau hyn drwy ddweud:

“On the 3G and 4G pitches, I recognise that we are talking about an investment that is new and has multiple advantages in terms of the amount of traffic that they can take; they are weather-proof to a large extent and can be available 24 hours a day, 365 days of the year. There really is something there for the Welsh Government to take up. Things are at an early stage in terms of what I can say here this morning, but I want you to know that we see the advantages of the 3G and 4G pitches, but there is a two-way conversation to be had on that as well. It would be entirely self-defeating, in my view, if there were to be heavy Welsh Government investment in such facilities without the conversation being had on how the community would benefit from what it was to receive. We could ask, for example, ‘Which new kids are you going to reach out to now that you have this fantastic facility and, if you team it up with floodlighting and so on, how will you ensure that women and girls are also a part of what you are doing in terms of footballing in your community?’. All those conversations must be had and must go alongside any kind of investment in 3G and 4G pitches, just as they would with regard to any other capital investment.”<sup>27</sup>

51. Ymhelaethodd Dr Huw Jones o Chwaraeon Cymru:

---

<sup>26</sup> Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru  
<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8499/Additional%20Written%20Information%20-%20CELG4%20Football%20Association%20of%20Wales.pdf>

<sup>27</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012  
<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

“The first thing that we need to do—and we have been working with representatives of football, rugby and hockey on this—is develop strategic thinking on what is needed where: where does hockey need its pitches? Where does rugby need pitches for training and where does football need its pitches? The majority of those will be 3G pitches, simply because of the amount of football that takes place there, but there are strategic issues that need to be looked at.

“Secondly, and this news will not be new to you, local authorities are going to be suffering real challenges over the next few years in terms of funding, particularly in asset management. They will have to look at the rationalisation of assets. It is within that context that some of these decisions will have to be made. If more artificial pitches are to be created and maintained, then, almost certainly fewer grass pitches will be maintained. There has to be that financial deal. If I were the local authority chief executive, that is the kind of question that I would be asking in terms of the reduced funding that is available.

“Thirdly, and I have discussed this with the FAW, we are very supportive of this, but it has to be, as the Minister said, an opportunity to really transform - not just to bung a pitch down strategically. We have to consider the strategic implications of what we are trying to create and for whom, and also how we improve the infrastructure of football, not just the built infrastructure, but the people infrastructure. We need to transform area associations so that they are developmental in nature and do not just look at the structure of the league and when fixtures are played. They need to be developmental in the true sense. If we can put all of that together, there is a good deal to be made. We will address this strategic issue over the next two to three years.”<sup>28</sup>

## **Y drwydded ddomestig**

52. Pwysleisiodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru fod yr angen i bob clwb sy'n rhan o UGC gael trwydded ddomestig yn arwydd clir bod y safonau a'r trefniadau llywodraethu'n gwella. Dywedodd fod hyn wedi helpu i wella cyfleusterau, safonau hyfforddi a thegwch ariannol, a'i bod yn ffyddiog y bydd pob agwedd ar y Gynghrair Genedlaethol yn tyfu ac yn gwella mwy fyth yn yr ugain mlynedd nesaf.

53. Un broblem y tynnwyd ein sylw ati gan dystion yn y cyd-destun hwn yw bod rhai timau yn y cynghreiriau sy'n bwydo UGC yn gyndyn o ymgeisio am drwydded

---

<sup>28</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012  
<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

ddomestig oherwydd y costau cysylltiedig. Hyd yn oed os yw'r timau hyn yn ennill eu cynghreiriau, mae hyn yn eu hatal rhag cael dyrchafiad. Cymhlethir hyn ymhellach gan y ffaith mai dim ond un tîm o gynghrair fwydo'r de ac un tîm o gynghrair fwydo'r gogledd all gael ei ddyrchafu bob tymor, fel yr eglurodd Clwb Pêl-droed Dinas Bangor:

“If you have one club that has finished in the bottom two of the Welsh Premier League and another that has finished runner up in the Welsh alliance, say, and has achieved the licence requirements, then, unfortunately, at the moment, the rules of the FAW state that only one club can be promoted. That needs looking at, in my opinion. If you finish in the relegation places in the Welsh Premier League, you should be relegated, especially if there is a club ready to take your place. This season, for example, Carmarthen Town and Newtown would have been relegated and, even though there were no clubs coming up from south Wales, Rhyl should have had the opportunity to come up to the Welsh Premier League.”<sup>29</sup>

54. Yn yr un modd, roedd tystion yn y digwyddiad yn Llandudno yn cytuno os nad oedd un tîm o gynghrair fwydo'r gogledd neu'r de'n dymuno cael ei ddyrchafu, y dylai dau dîm o'r gynghrair fwydo arall gael y cyfle hwnnw. Ymatebodd Gwyn Derfel o UGC drwy ddweud bod Andrew Howard, pennaeth cystadlaethau Cymdeithas Bêl-droed Cymru, yn paratoi adroddiad ar yr union fater hwn ar hyn o bryd. Dywedodd wrth y Pwyllgor y dylai'r adroddiad hwn gael ei gyflwyno i Gyngor y gymdeithas bêl-droed yn y 'dyfodol agos'.

55. Awgrymodd tystion eraill y dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno system gemau ail gyfle i benderfynu pwy ddylai gael dyrchafiad o'r cynghreiriau bwydo, gan y byddai hynny'n ennyn mwy o gyffro a diddordeb.

### **Amlygrwydd a sylw i UGC gan y Cyfryngau**

56. Roedd y mwyafrif helaeth o'r tystion yn llawn canmoliaeth i'r sylw a roddir i UGC ar S4C (drwy'r rhaglen *Sgorio* sy'n cael ei chynhyrchu gan Rondo Media). Fodd bynnag, cafwyd beirniadaeth gyson gan dystion am y diffyg sylw mewn lleoedd eraill, yn enwedig ar raglenni newyddion BBC Cymru ac ITV Wales ac mewn rhai papurau newydd. Mae'r sefyllfa hon yn fwy dyrys gan nad oes gan rai o ardaloedd mwyaf poblog Cymru, fel y de-ddwyrain a'r cymoedd dimau yn UGC. O ganlyniad, galwodd llawer o dystion ar Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad i roi pwysau ar rai cyfryngau i roi mwy o gefnogaeth a sylw i'r gystadleuaeth, gan gofio

---

<sup>29</sup> Tystiolaeth Lafar, 9 Mai 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8009/9%20May%202012.pdf>

ei statws fel prif gynghrair genedlaethol Cymru. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth:

"[...] our role is more one of persuasion. It is more a case of our having the ability, on behalf of the people of Wales, to point out—particularly to the BBC, which has a public service role—that Welsh sport generally is important to the cultural life of Wales and civic society and that, even in very difficult times such as these, the BBC in particular has a public duty to be a part of that sporting community and to cover events with that in mind. You are right to say that S4C really takes the lead here, and there is a conversation to be had with ITV and, indeed, newspapers about giving a true voice to Welsh sport in the widest context, and in this case to football."<sup>30</sup>

57. Dywedodd Dr Huw Jones o Chwaraeon Cymru fod hwn yn fater a oedd yn effeithio ar chwaraeon yn gyffredinol yng Nghymru, yn enwedig gan y bydd BBC Cymru yn wynebu rhagor o doriadau i'w adnoddau yn y dyfodol:

"I think that, if you had representatives of other sports around this table, they would have a very similar complaint and that, if you had representatives of women's sports here, they would have even greater complaints about coverage. As the Minister was saying, they have a real responsibility and there is a strategic issue for some of the broadcasters to address. They need to consider exactly what their role is with regard to the coverage of sport. This is particularly the case with the BBC, given its public service role. Of course, this situation will be compounded by the fact that they are going to be suffering cutbacks over the next few years. This committee may want to think about the implications of that for Welsh sport generally. All of the rumours coming out of Llandaf seem to suggest that sport will be a significant sufferer as a result of some of those cuts. It will not just affect football. It has already taken out bowls and a number of other sports. That is a serious concern to us as an organisation."<sup>31</sup>

58. Cwestiynodd rhai tystion rôl Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac UGC yn y cyswllt hwn hefyd, gan ofyn a oeddent yn gwneud digon i annog y cyfryngau i roi sylw a chyhoeddusrwydd i'r gynghrair. Yn ôl Clwb Pêl-droed Dinas Bangor, er enghraifft:

"The onus should be on the FAW to try to sell the Welsh Premier League, not just to the media but to sponsors as well. We were in the embarrassing

---

<sup>30</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

<sup>31</sup> Ibid

position last year of having no sponsor for the premier league in Wales until the week before the season started. I was vociferous in my disappointment about that [...] So, not only should it be selling to the media what the Welsh Premier League is all about, it should have us as clubs endorsing and backing that. However, at the moment, there seems to be a rift between the clubs and the league when it comes to sponsorship and the media.”<sup>32</sup>

59. Problem arall a godwyd mewn cysylltiad â'r cyfryngau oedd y ffaith nad yw clybiau UGC yn cael unrhyw arian ar hyn o bryd pan fo gemau y mae eu clybiau hwy'n chwarae ynddynt yn cael eu darlledu'n fyw. Yn ôl Clwb Pêl-droed Dinas Bangor:

“The coverage from Rondo in *Sgorio* is superb. There is no doubt about that. However, where does the funding from that go? We are talking about media coverage, but surely questions must be asked. There is a signed deal between the FAW and S4C, but we as clubs do not see a penny of that.”<sup>33</sup>

60. Dywedodd Rondo Media fod hyn yn anfoddhaol iawn:

“Cefais fy syfrdanu pan ddes i'n ymwybodol o hynny yn gyntaf. Fy nealltwriaeth i yw, ar gyfer y cytundeb newydd, y bydd hynny'n newid. Wrth gwrs, mae'n hollol hurt nad yw'r clybiau yn cael unrhyw fath o gydnabyddiaeth bod darllediadau yn dod o'u caeau.”<sup>34</sup>

61. Wrth ymateb i'r materion hyn, cyfeiriodd Jonathan Ford o Gymdeithas Bêl-droed Cymru at y cytundeb teledu newydd sydd wedi cael ei drafod gydag S4C ar gyfer UGC o'r tymor nesaf ymlaen:

“I cannot announce all the details, but we have taken a monetary fee for the rights available, which will be invested back into the league and, funnily enough, back into infrastructure: pitches, gantries and so on. We have to work out the formula for how that works. From that, we will have over 20 live matches per season [...]

“We will have 36 live matches per season. If I look back on the deal when I came in and the deal that I inherited, I think that it was down to about six

---

<sup>32</sup> Tystiolaeth Lafar, 9 Mai 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8009/9%20May%202012.pdf>

<sup>33</sup> Ibid

<sup>34</sup> Tystiolaeth Lafar, 23 Mai 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8365/23%20May%202012.pdf>

matches per season. I am also pleased to say that the new tv deals from 2012-14 will see a change of the rights that we have available, so we will not just be on terrestrial tv with regards to S4C, there will be another carrier and, as part of that deal, it has agreed to clip rights. So, in weekly round-up shows, there will be coverage of the WPL on a more widely viewed terrestrial tv channel, and I am pleased to say that our coverage will go from strength to strength.

“We still struggle, as you know, and as I mentioned last time, to gain coverage for our league on other media platforms and in the national press. However, we have made significant strides and changed fundamentally the way in which football is reported in this country across all levels in all the media that we have available to us.”<sup>35</sup>

62. Yn yr un modd amddiffynnodd Gwyn Derfel ymdrechion Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac UGC yn y cyswllt hwn:

“We welcome S4C’s involvement and its commitment to the Welsh Premier League. It has been an excellent partner and we are really looking forward to working with S4C over the next two to three years as well. Coming back to Gwyn’s question about other media outlets, it is a shame that they are not so proactive. Our so-called national newspaper has been offered reports free of charge, because its initial argument was that it did not have the manpower to put up reports of games. We offered it reports from every game, free of charge, and it has not taken us up on the offer. It is about its lack of appetite, not a lack of effort on behalf of the Football Association of Wales.”<sup>36</sup>

### **Torfeydd mewn gemau**

63. Dywedodd Gwyn Derfel nad oedd yn cydnabod sylwadau bod nifer y bobl a oedd yn mynd i wylïo gemau wedi gostwng ers cyflwyno’r fformat 12 tîm i’r gynghrair yn 2010:

“Since the inception of the Super 12, the past two seasons have been the two most supported seasons since the inception of the Welsh Premier League, with a combined average increase of 26%. That is significant, as

---

<sup>35</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

<sup>36</sup> Ibid



crowd levels in Europe are not following the same trend. I accept that certain clubs are down, but the concept of a 26% increase is accurate.”<sup>37</sup>

64. Er hyn, cyfaddefodd fod cael mwy o bobl i ddod i wylio gemau yn un o dri gwelliant sylfaenol sydd eu hangen ar UGC er mwyn i'r Gynghrair Genedlaethol ddatblygu ymhellach. Yn y cyd-destun hwn, mae'n dweud bod yn rhaid gwneud mwy i ddenu teuluoedd i wylio gemau:

“Er mai'r tymor yma a'r tymor diwethaf yw'r ddau sydd wedi gweld y ganran uchaf o gefnogaeth ers sefydlu'r Cynghrair – rhaid derbyn bod angen denu mwy o wylwyr i'r gemau – yn enwedig teuluoedd. Rydym fel CBDC am gyflwyno canllawiau llawer mwy llym ar regi'r tymor nesaf er mwyn gosod esiampl a denu teuluoedd i'n gemau.”<sup>38</sup>

65. O ran yr anhawster y mae'r gynghrair yn ei gael i ddenu nifer fawr o wylwyr, galwodd mwy nag un tyst ar y gymdeithas bêl-droed ac UGC i lunio strategaeth benodol er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn.

### **Fformat 12 tîm y gystadleuaeth**

66. Cyn tymor 2009-10, roedd Uwch Gynghrair Cymru'n cynnwys 18 tîm a oedd yn chwarae ei gilydd ddwywaith y tymor mewn fformat cynghrair traddodiadol. Yn dilyn trafodaethau rhwng y clybiau a'r gymdeithas bêl-droed, penderfynwyd aildrefnu'r gystadleuaeth o 2010-11 ymlaen.<sup>39</sup> O fis Awst i fis Ionawr, mae'r timau'n chwarae yn erbyn ei gilydd ddwywaith. Yn dilyn y rhan gyntaf hon, mae'r gynghrair yn rhannu, gyda'r pwyntiau a enillwyd yn barod yn cael eu cario drosodd, a'r chwe tîm uchaf yn chwarae yn erbyn ei gilydd ddwywaith a'r chwe tîm isaf yn chwarae yn erbyn ei gilydd, gyda'r nod o sicrhau bod pob tîm erbyn diwedd y tymor naill ai'n chwarae am le yn y gemau ail gyfle neu'n brwydro i gadw eu lle yn y gynghrair. Mae hyn yn lleihau nifer y gemau 'dibwrpas' sy'n cael eu cysylltu weithiau â chynghrair fwy. Mae hefyd yn golygu bod modd cael egwyl ar ganol y tymor ar adeg pan fo'r tywydd yn effeithio ar arwynebau chwarae. Hwn yw'r ail dymor lle mae'r fformat presennol yn cael ei ddefnyddio, ac nid oes gwerthusiad o'i effaith wedi'i gynnal eto.

67. Mae tymor UGC yn ymestyn o fis Awst i fis Ebrill, ond mae rhai sy'n awyddus i newid y tymor i fisoedd yr haf, o fis Mawrth i fis Hydref. Mae hwn yn fodel sy'n cael ei ddilyn gan nifer o gynghreiriau yng ngogledd Ewrop a hefyd, er 2003, gan

<sup>37</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

<sup>38</sup> Gwybodaeth ychwanegol gan Gwyn Derfel,

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s10596/Gwybodaeth%20Ysgrifenedig%20Ychwanegol%20-%20CELG%20Gwyn%20Derfel.pdf>

<sup>39</sup> BBC News, [Premier clubs pass league changes](#), 13 Mehefin 2009 [darllenwyd 12 Ebrill 2012]

Uwch Gynghrair Iwerddon. Mae hyn wedi dod â mwy o sylw i gynghrair Iwerddon ac mae wedi cynyddu ei phoblogrwydd, ac ymddengys ei fod wedi gwneud timau Iwerddon yn fwy cystadleuol yng nghystadlaethau Ewrop. Fodd bynnag, mae hefyd wedi arwain at anawsterau gan fod llawer o glybiau Iwerddon wedi gwario mwy na'u cyllideb er mwyn parhau'n gystadleuol. Mae llawer o sylwedyddion wedi argymhell y dylai Uwch Gynghrair Cymru dreialu tymor pêl-droed dros fisoedd yr haf er mwyn pwysu a mesur y manteision.<sup>40</sup>

68. Roedd rhai o'r unigolion a gyflwynodd dystiolaeth yn croesawu'r fformat 12 tîm a gyflwynwyd ar gyfer UGC yn 2010, gan ddweud ei fod wedi arwain at fwy o ddiddordeb yn ail hanner y tymor a bod mwy o gemau deniadol yn cael eu cynnal erbyn hyn. Yn ôl Gwyn Derfel o UGC, mae strwythur 12 tîm y gynghrair wedi bod o fudd i'r gystadleuaeth:

“Rwy'n credu bod y 'Deuddeg Disglair' wedi arwain at gynnydd yn y cyffro a'r safon ac mae hynny'n cael ei adlewyrchu i ryw raddau yn y cynnydd o 26% yn lefel y torfeydd ar yr un adeg a bod canran torfeydd mwyafrif llethol gwledydd Ewrop yn disgyn.”<sup>41</sup>

69. Dywedodd hefyd mai hwn yw'r strwythur sy'n cael ei ffafrio bellach gan lawer o wledydd Ewrop:

“Look at the UEFA strategy, where 12 is the optimum number for countries of our size. Over the past three years, many countries have gone down from 14 or 16 to 12, and countries with leagues of eight, nine and 10 have gone up to 12. So, it is the optimum number. It is not just a Welsh perspective; it is a European perspective, and I think that we have to take that into consideration.

“The size of the league was discussed at our annual general meeting on Saturday; there were a couple of dissenting voices, but the general consensus from representatives of the 12 clubs was that it was a good thing.”<sup>42</sup>

70. Mae S4C hefyd yn cefnogi'r fformat 12 tîm ar hyn o bryd, ac yn dweud ei fod 'yn apelgar i ddarllledwr oherwydd ei fod yn cynnig sicrwydd o gemau deniadol yr holl ffordd hyd at ddiwedd y tymor'.

---

<sup>40</sup> BBC News, [Welsh Premier League to consider summer switch](#), 22 Rhagfyr 2010 [darllenwyd 12 Ebrill 2012]

<sup>41</sup> Gwybodaeth ychwanegol gan Gwyn Derfel, <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s10596/Gwybodaeth%20Ysgrifenedig%20Ychwanegol%20-%20CELG4%20Gwyn%20Derfel.pdf>

<sup>42</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012, <http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

71. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf o'r clybiau a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn cytuno bod y system yn gweithio. Mae llawer o dystion wedi honni bod y clybiau'n gorfod chwarae yn erbyn ei gilydd ormod o weithiau mewn tymor, a bod hynny'n arwain at lai o dorfeydd a diffyg diddordeb. Yn y digwyddiad a gynhaliwyd yn Llandudno, er enghraifft, galwyd y fformat newydd yn drychineb ac yn ddarlun cwbl gamarweiniol. Roedd llawer o blaid cynghrair ag o leiaf 16 o dimau, ac o bosibl 18 neu 20. Roeddent yn dweud y gallai hyn annog timau o gynghreiriau is i baratoi i wneud cais am drwydded ddomestig gan wybod y byddai ganddynt fwy o siawns o chwarae yn UGC.

72. Mewn ymateb, dywedodd Gwyn Derfel y gallai cystadleuaeth cwpan cynghrair wedi'i hailwampio y tymor nesaf fynd i'r afael â rhai o'r dadleuon bod strwythur presennol UGC yn gwneud y clybiau'n orgyfarwydd â'i gilydd:

"We accept what the clubs have said about the familiarity argument this year. We have just passed a proposal to revamp the league cup, which will include the feeder-league clubs, and it will be on a one-leg basis. It is something that we are trying to address. We think that this new competition will diminish the familiarity aspect. We will try to engage the feeder-league clubs to aspire to come to the national league."<sup>43</sup>

73. Awgrym arall a gyflwynwyd yn y digwyddiad yn Llandudno, ac a gefnogwyd gan y rhan fwyaf o'r rhai a oedd yn bresennol, oedd rhannu UGC yn gynghrair ranbarthol gogledd, canolbarth a de gyda'r timau uchaf yn dod at ei gilydd i chwarae yn erbyn ei gilydd ar ddiwedd y tymor. Ymatebodd Jonathan Ford o Gymdeithas Bêl-droed Cymru drwy egluro bod yr angen am gynghrair genedlaethol yn gwneud y cynnig hwn yn annhebygol:

"The one thing that drove [the establishment of the WPL] forward in the first place was the necessity, under the regulations, to have a national league, and that would take away a national league. That was the driving force - that we wanted, in this country, a national league."<sup>44</sup>

### **Pêl-droed yn yr haf**

74. Pan ymddangosodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru gerbron y Pwyllgor am y tro cyntaf, roedd yn gefnogol iawn i'r syniad o dreialu cynghrair yr haf, ac mae llawer o dystion wedi cytuno y dylid ystyried hynny. Ymddengys bod cytundeb y byddai newid o'r fath o fudd yn fwyaf arbennig i'r clybiau sy'n chwarae yn Ewrop, yn enwedig gan fod y rhan fwyaf o'r gwrthwynebwyr y mae clybiau Cymru'n eu

---

<sup>43</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012,

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

<sup>44</sup> Ibid

hwynebu yn y cystadlaethau hynny yng nghanol eu tymhorau pan mae'r gemau'n cael eu chwarae. Cyfeiriodd tystion hefyd at lwyddiant pêl-droed yr haf yng Ngweriniaeth Iwerddon a'r ffordd y mae newid i'r haf wedi helpu i adfywio rygbi'r gynghrair yn Lloegr ar adeg pan oedd y gêm yn marw ar ei thraed.

75. Fodd bynnag, mae rhai clybiau'n gwrthwynebu'r syniad yn gryf, gan gyfeirio at resymau fel yr anhawster i ddenu chwaraewyr, traffig yr haf, a chost systemau dyfrhau ar gyfer y caeau. Fel prif ddarlledwr UGC, mae S4C hefyd yn gwrthwynebu newid o'r fath, gan ddweud bod llai o bobl yn gwyllo'r teledu yn ystod yr haf ac amau a fyddai'n gwella delwedd y gynghrair. Byddai problemau hefyd wrth geisio cael cysondeb rhwng cynghrair yr haf a'r cynghreiriau is sy'n chwarae yn y gaeaf, fel yr eglurodd yr ystadegydd, Mel Thomas:

“Hwyrach ei bod hi'n werth trio hynny am ryw ddwy i dair blynedd, ond mae problemau yn dod o hynny o ran y cynghreiriau is, o dan y gynghrair genedlaethol. Ar y funud, credaf y byddai'n rhaid i'r rheini hefyd symud i chwarae yn yr haf oherwydd mae'n rhaid i glybiau ostwng a dod i fyny o'r ail reng er mwyn peidio â gadael i bethau aros yn yr unfan yn y gynghrair genedlaethol. Felly, byddai'n rhaid dod o hyd i ffordd o gloi i mewn y *promotion* a'r *relegation*, os gallaf ei ddweud felly.”<sup>45</sup>

76. Wrth ymateb i'r materion hyn, pwysleisiodd Gwyn Derfel o UGC y dylid rhoi blaenoriaeth, ar hyn o bryd, i ddatblygu caeau 3G a 4G yn hytrach nag unrhyw gynigion i newid i bêl-droed dros yr haf oherwydd gwrthwynebiad y rhan fwyaf o'r clybiau:

“Ar hyn o bryd, byddwn yn dweud bod mwyafrif y clybiau yn erbyn pêl-droed yn yr haf, ac oherwydd dyna deimladau'r clybiau, dyna fy marn bersonol i hefyd. Hoffwn weld y patrwm o'r 12 disglair yn cael ei gadw am dair blynedd, fel y soniodd Jonathan. Yn ystod y tair blynedd hynny, ffyrdd eraill o ddatblygu'r gynghrair sydd eu hangen. Mae buddsoddiad mewn meysydd 3G a 4G yn allweddol i ddatblygiad Uwch-gynghrair Cymru.”<sup>46</sup>

### **Y clybiau o Gymru sy'n chwarae ym mhyramid Lloegr**

77. Roedd un cyflwyniad i'r ymchwiliad yn feirniadol iawn o'r ffaith fod Cymdeithas Bêl-droed Cymru, wrth sefydlu UGC yn 1992, wedi caniatáu i chwe thîm o Gymru barhau'n rhan o byramid pêl-droed Lloegr. Yn ôl Dic Mortimer

---

<sup>45</sup> Tystiolaeth Lafar, 9 Mai 2012,

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8009/9%20May%202012.pdf>

<sup>46</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012,

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

(unigolyn sydd wedi cyflwyno tystiolaeth i'r ymchwiliad), dylai hyn fod wedi bod yn un o'r prif bwyntiau i'r Pwyllgor ganolbwyntio arno:

“Any inquiry into the state of the Welsh Premier League (WPL) that does not concentrate on the fundamental flaw at its very heart would not be a genuine or credible inquiry. Therefore unless the CELG Committee confronts the fact that six Welsh football clubs (Cardiff City, Colwyn Bay, Merthyr Town, Newport County, Swansea City and Wrexham) play in the English football pyramid, and treats it as the paramount issue to be dealt with, then, ladies and gentlemen, you are wasting everybody’s time including your own.

“The one and only reason the WPL has, pro-rata, the lowest gates, worst grounds, weakest sponsorship, least media coverage tiniest prize money and oh, oh yes nearly forgot, smallest support from government in all of Europe is because Wales, uniquely in the world, permits six of its clubs to desert it and play in another country’s competition [...] These are not just any clubs: they are, historically, Wales’ five “biggest” [...]

[...] we need every Welsh football club to play in Wales, and until that happens Wales’ flagship national league will remain a laughing stock. Every single WPL your Committee identifies can be traced directly to this question [...] And yet the FAW, incredibly, DOESN’T EVEN HAVE A POLICY on the matter.

“The very first thing that needs to be extracted from the FAW (it will not be easy) is a statement of opinion, intent or just long-term aspiration, about the position of the six clubs – something that they have never done.”<sup>47</sup>

78. Yn yr un modd, cydnabu Tomi Morgan fod presenoldeb timau fel Abertawe, Caerdydd, Casnewydd a Wrecsam yng nghynghrair Lloegr yn ‘ansefydlogi’ UGC. Pan ddygwyd y materion hyn i sylw Cymdeithas Bêl-droed Cymru, dywedodd John Deakin, Ysgrifennydd UGC ar y pryd:

“I came in at the start of this, in 1992, and I have to say that I think that it was handled badly at that time. In fact, I ended up in the High Court when we were taken there under a restraint of trade action issued by certain clubs. If I had been running those clubs, I probably would have done the same thing. However, the situation is that we have a standard of football to

---

<sup>47</sup> WPL 11, <http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s7157/Consultation%20Response%20-%20CELG4%20WPL%2011%20Dic%20Mortimer.pdf>

provide, and while I would love to see Cardiff City and Swansea City in a league in Wales, you have to be realistic about it; it is not going to happen. When you set your goals, they have to be attainable. The goals that were set pre-1992 were unattainable. Basically, the only way we will get clubs to commit to Wales is by improving the product within Wales. That, I think, would be the only strategy, as such.”<sup>48</sup>

## **Casgliadau ac Argymhellion**

79. Rhan ganolog o strategaeth Cymdeithas Bêl-droed Cymru ar gyfer datblygu UGC yw'r egwyddor o'r clwb pêl-droed fel canolfan gymunedol. Mae hwn yn ddatblygiad naturiol i gynghrair gymharol fach, sy'n wynebu'r problemau y mae UGC yn eu hwynebu.

80. Mae gan glybiau UGC gyfleusterau a seilwaith yn barod a allai fod o fudd sylweddol i'r gymuned. Mae'r rhain yn cynnwys caeau, cyfleusterau newid, adeiladau clybiau, ystafelloedd cynadleddau ac ati. Mae gan glybiau bethau eraill hefyd a allai helpu i ddatblygu pêl-droed ar lawr gwlad yn y cymunedau h.y. academiâu a hyfforddwyr sydd wedi eu hyfforddi i safonau uchel. Gall y model 'canolfan gymunedol' fod o gymorth i glybiau UGC – drwy roi ei hun yng nghanol bywyd y gymuned, gobeithir y bydd y gymuned yn cefnogi'r clwb (fel cefnogwyr, a hefyd yn gweld y clwb fel caffaeliad i'r gymuned).

### ***Caeau 3G/4G***

81. Er bod gan gefnogwyr a chwaraewyr farn gref ynglŷn â manteision neu anfanteision chwarae ar gaeau artiffisial, mae'n amlwg bod manteision eraill i glybiau sydd â chyfleusterau o'r fath. Mae caeau o'r fath yn addas ar gyfer pob tywydd a gellir eu defnyddio drwy gydol y flwyddyn. Mae hyn yn golygu y gall y caeau fod ar gael i rannau eraill o'r gymuned. Mae awdurdodau lleol wedi ceisio cyflwyno caeau chwarae artiffisial oherwydd y manteision hyn.

82. Mae'n bosibl hefyd y gall chwarae ar arwyneb sydd o ansawdd cyson drwy gydol y flwyddyn arwain at welliannau mewn safonau chwarae. Wrth gwrs, ni fydd pob clwb yn dymuno defnyddio caeau artiffisial, ond dylai'r gefnogaeth fod ar gael i'r rhai hynny sy'n dymuno newid.

83. Er nad yw llwyddiant y model canolfan gymunedol yn gwbl ddibynnol ar gael caeau 3/4 G, os yw clwb yn awyddus i gynyddu'r defnydd a wneir o'i gyfleusterau gan y gymuned, am resymau amlwg bydd arno angen arwyneb a all ddygymod â'r cynnydd hwnnw mewn defnydd. Cawsom lawer o dystiolaeth o'r budd sylweddol y

---

<sup>48</sup> Tystiolaeth Lafar, 24 Ebrill 2012, <http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s7562/25%20April%202012.pdf>

gall caeau 3/4G ei gynnig yn fwy cyffredinol, gan gynnwys y manteision amlwg o ran cymryd rhan mewn chwaraeon a phêl-droed ar lawr gwlad.

**Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ar gyfer datblygu caeau 3/4G ledled Cymru.**

**Argymhelliad: Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac Awdurdodau Lleol edrych ar gyfleodd i glybiau Uwch Gynghrair Cymru, sy'n dymuno datblygu'r model canolfan gymunedol, gael cymorth ariannol i ddatblygu caeau 3/4G.**

### **Sylw gan y Cyfryngau**

84. O ran y trefniadau presennol, roedd y dystiolaeth a gawsom am ansawdd y sylw a roddir i gemau UGC gan S4C a Rondo Media yn unfrydol gadarnhaol. Dylid canmol y ddau sefydliad am hyn.

85. Roedd Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn y broses o drafod cytundeb newydd am hawliau darlledu ar gyfer UGC pan oeddem yn cynnal ein hymchwiliad. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn arwain at ragor o welliannau i'r sylw a roddir i UGC, yn enwedig o ran y defnydd o glipiau ar sianeli eraill.

86. Mae nifer o bryderon ynglŷn â'r mater mwy cyffredinol o sylw i UGC ar draws y cyfryngau yng Nghymru. Teimlwn fod y sylw a roddir i gynghrair genedlaethol Cymru'n annigonol, ac mae'r ffaith fod adroddiadau am gemau wedi cael eu cynnig i bapurau newydd, ond heb gael eu defnyddio, yn siomedig.

87. Fel yn achos llawer o agweddau eraill ar UGC, mae hwn yn fater o gynnydd graddol i'r cyfeiriad cywir, a chredwn y bydd y cytundeb teledu newydd, os bydd yn llwyddiannus, yn arwain at fwy o sylw a mwy o ddiddordeb ac, o ganlyniad, at fwy o frwdfrydedd yn y cyfryngau eraill i roi sylw i'r gynghrair.

88. Fel rhan o'n cylch gorchwyl, mae gennym gyfrifoldeb i ystyried y cyfryngau a darlledu yng Nghymru. Byddwn yn adolygu'r sylw a roddir i UGC er mwyn sicrhau ei bod yn cael sylw priodol ar draws y cyfryngau.

### **Torfeydd mewn Gemau**

89. Y dystiolaeth a gawsom gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru oedd bod nifer y bobl sy'n mynd i wyluo gemau'n cynyddu. Er hyn, roedd y tystion i gyd yn cytuno y byddent yn hoffi gweld rhagor o gynnydd. Yn wir, dyma un o'r prif heriau sy'n wynebu UGC (mae'n werth nodi hefyd bod hyn yn broblem y mae llawer o gynghreiriau bach yn ei hwynebu), yn enwedig wrth geisio sicrhau bod clybiau'n gallu cynnal eu hunain yn ariannol.

90. Credwn fod modd cynyddu nifer y bobl sy'n dod i wylio gemau mewn llawer o ffyrdd – uniongyrchol ac anuniongyrchol. O ran gwelliannau anuniongyrchol, credwn mai'r elfen ganolog yw datblygu'r model canolfan gymunedol. Drwy wneud clwb yn rhan ganolog o'r gymuned (yn enwedig ei bywyd cymdeithasol a'r elfen chwaraeon), mae'n anorfod y bydd y gymuned yn cefnogi ac yn gwerthfawrogi'r clwb.

91. O ran gwelliannau uniongyrchol, awgrymodd nifer o dystion y dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru ddatblygu strategaeth benodol i ddenu mwy o wylwyr (a theuluoedd yn fwyaf arbennig) i gemau. Teimlwn y dylid ystyried hyn fel rhan o waith Cymdeithas Bêl-droed Cymru yng nghyswllt datblygu'r model canolfan gymunedol.

92. Ar ôl sefydlu hynny, teimlwn y dylid datblygu cydweithio rhwng clybiau ac awdurdodau lleol er mwyn cynyddu hyfywedd clybiau fel canolfannau cymdeithasol a chanolfannau chwaraeon.

**Argymhelliad: Fel rhan o fodel Canolfan Gymunedol arfaethedig Cymdeithas Bêl-droed Cymru, dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac Awdurdodau Lleol weithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau bod y clybiau'n cael cymorth i gyrraedd pob rhan o'u cymunedau.**

### **Strwythur y Gynghrair**

93. Mae'n amlwg nad lle'r pwyllgor hwn yw gwneud sylwadau ar broblemau sy'n fater i Gymdeithas Bêl-droed Cymru a'r clybiau, ond teimlwn y byddai'n briodol i ni wneud sylw am rai materion a ddygwyd i'n sylw gan dystion yn ystod ein hymchwiliad.

94. Fel rydym wedi dweud yn barod yn yr adroddiad hwn, un o'r prif bwyntiau y tynnwyd ein sylw atynt yn ystod y broses o gasglu tystiolaeth oedd na allai'r clybiau a'r cefnogwyr weld sut roedd Cymdeithas Bêl-droed Cymru'n berthnasol iddynt hwy mewn gwirionedd. Daeth hyn yn amlwg iawn yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â'r gynghrair (strwythur ac ati), lle teimlai clybiau nad oedd neb yn gwrando ar eu barn. Mae hyn yn fater o ddatblygu perthynas a gwella cyfathrebu rhwng Cymdeithas Bêl-droed Cymru a chlybiau UGC (a chefnogwyr) – disgwyliwn i'r gymdeithas bêl-droed roi sylw i hyn.

### ***Fformat 12 tîm y Gystadleuaeth***

95. Yn ystod ein hymchwiliad, dywedodd nifer o dystion wrthym eu bod yn poeni ynglŷn â strwythur UGC, yn enwedig nifer y tîmau ac, o ganlyniad, nifer y troeon yr



oedd timau'n chwarae yn erbyn ei gilydd yn ystod y tymor. Sylwn fod Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi ceisio rhoi sylw i'r mater penodol hwn drwy newid cystadleuaeth cwpan y gynghrair. Mae'n amlwg nad mater i ni yw hwn, ond rydym yn croesawu'r ymrwymiad i adolygu pob un o'r materion hyn.

### ***Pêl-droed yn yr Haf***

96. Unwaith eto, cawsom dystiolaeth gymysg ar y mater hwn. Roedd rhai'n cefnogi treialu'r dull hwn o leiaf, tra roedd nifer o glybiau'n gryf iawn yn erbyn y syniad. Rydym yn cefnogi'r farn a fynegwyd gan Gwyn Derfel o Gymdeithas Bêl-droed Cymru, y dylid canolbwyntio ar gyfleoedd eraill i wella UGC oherwydd gwrthwynebiad cryf y clybiau.

97. Er hyn, credwn ei bod yn bwysig adolygu dewisiadau eraill, yn enwedig os yw'n dod yn amlwg y byddai budd i UGC.

### ***Y Clybiau o Gymru sy'n chwarae ym mhyramid Lloegr***

98. Mae hwn yn fater y mae rhai tystion yn teimlo'n gryf iawn yn ei gylch. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y byddai'n fuddiol gwneud unrhyw sylw pellach, gan nad ydym yn credu y gallwn ddylanwadu ar y sefyllfa.

## 4. Hyfforddi Chwaraewyr a Hyfforddwyr

---

### Cyflwyniad

99. Yn Ionawr 2012, cyfeiriodd Cyfarwyddwr Technegol Cymdeithas Bêl-droed Cymru, Osian Roberts, at safon chwaraewyr a hyfforddwyr yn UGC, gan ddweud:

“I think we can produce these kinds of talents in the Welsh Premier League and produce them regularly, and thus create six-figure transfer sums for our own Clubs. I can think of several players who have really impressed me in the last couple of years and aren't that far away.”<sup>49</sup>

100. Wrth sôn am hyfforddwyr, dywedodd: ‘I think we have two or three Managers in our League who are now ready to step up.’<sup>50</sup>

101. Yn ystod ugain mlynedd UGC, mae llawer o chwaraewyr wedi mynd ymlaen i chwarae i glybiau yng nghynghreiriau pêl-droed Lloegr, yn yr adrannau is gan mwyaf, ac i gynrychioli Cymru ar lefelau amrywiol. Yn yr un modd, mae timau UGC hefyd wedi chwarae nifer o chwaraewyr nad ydynt wedi llwyddo ar lefel uwch. Er mwyn hybu datblygiad chwaraewyr iau, mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru'n trefnu cystadleuaeth academi ranbarthol ar gyfer oeddrannau amrywiol ac mae'n ofynnol i holl glybiau UGC gael rhaglen academi er mwyn bod yn gymwys i aelodaeth o'r gynghrair a chael cyllid gan UEFA.<sup>51</sup> Mae'r academiâu wedyn yn darparu chwaraewyr i sgwad datblygu cenedlaethol Cymru ar lefel ieuenctid. Mae'r sgwad bresennol yn cynnwys dau chwaraewr o glybiau UGC yn system academi Cymdeithas Bêl-droed Cymru,<sup>52</sup> ac mae'r rhan fwyaf o'r sgwad yn cynnwys chwaraewyr o'r clybiau o Gymru sy'n chwarae yng nghynghreiriau pêl-droed Lloegr neu'n chwaraewyr o glybiau yn Lloegr. Gellid priodoli hyn i'r ffaith fod gan y clybiau mwy rwydweithiau sgowtio ehangach a mwy o adnoddau.

102. Mae mater cysylltiedig yn ymwneud â chydraddoldeb a sut y mae UGC yn helpu i ddatblygu chwaraewyr o wahanol gefndiroedd (agweddau cymdeithasol-economaidd, ethnigrwydd, anabled, rhyw ac ati). Yn y cyswllt hwn, dylid nodi bod Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru'n gyfrifol am drefnu rhaglenni i helpu i ddatblygu pêl-droed ar lawr gwlad, gan gynnwys pêl-droed mini a phêl-droed i wahanol grwpiau, gan gynnwys merched, pobl o wahanol oedran, pobl anabl a lleiafrifoedd ethnig.

---

<sup>49</sup> Uwch Gynghrair Cymru, Datganiad newyddion, [Technical Director Applauds Standard of League](#), 4 Ionawr 2012 [darllenwyd 12 Ebrill 2012]

<sup>50</sup> Ibid

<sup>51</sup> Uwch Gynghrair Cymru, [FAW Academies 2012/13 season](#), [darllenwyd 12 Ebrill 2012]

<sup>52</sup> Uwch Gynghrair Cymru, Datganiad newyddion, [Two Academy Players named in U16 National Development Squad](#), 4 Ionawr 2012 [darllenwyd 12 Ebrill 2012]

## Yr academiâu

103. Fel rhan o'r meini prawf Trwyddedu Domestig a meini prawf trwyddedu UEFA, rhaid i bob clwb yn UGC gael Academi. Mae'r clybiau'n cael tua £19,000 gan UEFA bob blwyddyn tuag at hyn. Holodd rhai tystion a oedd y clybiau mewn gwirionedd yn gwario'r holl arian ar eu hacademiâu. Cyfaddefodd Jonathan Ford ei hun y byddai mae'n debyg yn awgrymu nad yw'r arian sy'n cael ei wario'n uniongyrchol ar academiâu o reidrydd yn cael ei wario 100% ar academiâu yn y pen draw. Dywedodd hefyd fod llawer o glybiau'n dal i ystyried academiâu fel cost yn hytrach na buddsoddiad ar gyfer y dyfodol.

104. Mater arall a godwyd oedd y ffaith nad yw timau y tu allan i UGC yn cael arian gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru i redeg academiâu, ac mae tystion wedi cwestiynu tegwch hyn. Galwodd Jonathan Ford am ragor o gyllid i'r perwyl hwn:

"I think academies are absolutely fundamental to the success of football going forward [...] We spend an awful lot of money funding those academies, but unfortunately I do not think there is enough money available in football at a local level to fund them even further. We need centres of excellence and greater academy structures; we just do not have the money to do it."<sup>53</sup>

105. Canmolodd llawer o dystion y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan yr academiâu ym mhob clwb, gan nodi y gall timau cynrychioladol ar bob lefel ddal eu tir yn erbyn timau cynrychioladol o wledydd eraill. Yn ei phapur, dywedodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru hefyd fod yr academiâu yn bwysig iawn yn y broses o ganfod talentau i UGC ac y byddant yn dod yn ffrydiau refeniw i'r clybiau pan fydd chwaraewyr yn cael eu gwerthu ymlaen.

106. Fodd bynnag, roedd eraill yn beirniadu'r ffaith nad oedd strategaeth weithredol i godi safon pêl-droed ar lefelau is. Dywedasant fod angen aildrefnu strwythur yr academi, yn ariannol ac yn dechnegol, ac mai'r unig reswm dros fodolaeth y system ar hyn o bryd yw gofynion UEFA a'r angen i roi tic yn y bocs. Ymatebodd Jonathan Ford drwy ddweud:

"We are responsible for going around every academy on an annual basis and a proper evaluation procedure is gone through. As I mentioned, if there are certain circumstances in a club where the academy is a separate entity, often the moneys will go to the separate entity as opposed to the club. I hope that it is not a tick-box exercise, because I firmly believe in

---

<sup>53</sup> Tystiolaeth Lafar, 25 Ebrill 2012, <http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s7562/25%20April%202012.pdf>

academies. We need a strong academy system in order to identify players and ensure that the player pathway works, otherwise that conveyor belt will stop. I am pleased about the investments that we have made and the decision to set up the trust and have a dedicated resource for grass-roots football. The total amount of money available to the trust and the grass roots, as a percentage of our total combined income, is about 30%. The amount of money that we put into the grass roots is considerably higher than that of a lot of comparable associations. I firmly believe that we will see the benefits of those decisions, not immediately, of course, but in the 15 to 20 year period when that conveyor belt comes through and we have a greater pool of talent from which to choose, and when more people are playing football and are doing so to a higher standard. I firmly believe that we are making the right decisions to make that happen.”<sup>54</sup>

### **Datblygu hyfforddwyr a chwaraewyr**

107. O ran datblygu hyfforddwyr, mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru wedi dweud wrth y Pwyllgor o’r blaen ei bod wedi buddsoddi £400,000 dros y pedair blynedd diwethaf i ddatblygu hyfforddwyr yng nghlybiau UGC, ac mae’r rhan fwyaf o’r tystion wedi canmol safon gyffredinol hyfforddi pêl-droed yng Nghymru. Fodd bynnag, mynegodd rhai tystion bryder ynglŷn â chost datblygu hyfforddwyr, yn enwedig pan fo clybiau’n colli statws UGC a chyllid grant ddim yn cael ei ddarparu wedyn.

108. O ran datblygu chwaraewyr, awgrymodd Dr Huw Jones o Chwaraeon Cymru mai Cymdeithas Bêl-droed Cymru ddylai benderfynu ynglŷn â’i blaenoriaethau yn y maes hwn:

“Mater i Gymdeithas Pêl-droed Cymru yw materion strategol yn ymwneud â phêl-droed. Beth yn union y mae eisiau oddi wrth y 12 clwb sydd yn y gynghrair—a ydyw eisiau 12 clwb sy’n ddatblygiadol ac yn glybiau cymunedol? Mae hynny’n gwestiwn mawr i’r gymdeithas. Ar y funud, mae’r rhan fwyaf o’r clybiau sydd yn y gynghrair ddim ond yn cymryd rhan yn y gynghrair. Mae hynny’n hollol wahanol i glybiau ar y cyfandir sydd â thri, pedwar neu bump o dimau yn chwarae. Maent yn glybiau datblygiadol a chymunedol. Mae Barcelona a Real Madrid yn enghreifftiau. Nid un tîm ydynt. Pe bai’r clybiau yn y gynghrair yn edrych ar eu hunain yn wahanol i’r ffordd y maent yn ei wneud ar y funud, byddai mwy o gyfleoedd i’w helpu i ddatblygu.

---

<sup>54</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012, <http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

“It is only in recent years that we have seen the development of academies within some of the WPL clubs. Historically, that was not the case . . .The vast majority do not have that type of structure. That is a strategic issue for the FAW to address: what sort of structure it wants, whether it wants these to be real hub clubs or just clubs that play in the WPL?”<sup>55</sup>

109. Yn ôl Jonathan Ford, bydd buddsoddiad Cymdeithas Bêl-droed Cymru mewn hyfforddwyr a seilwaith yn parhau dros y blynyddoedd nesaf:

“I am pleased to say that we will continue our investment in the Welsh Premier League, and we will continue our investment in coaching and in the facilities where we can. I am pleased to say that we have just agreed with the trust a further four years of funding for the coaching programme, at £100,000 a year. We did not have that four years ago, but now it will continue for another four. I am pleased to say that, for next year, Welsh ground improvement has been awarded a grant of about £500,000. We are doing all that we can with the licensing programme to ensure that academies and coaches are up to scratch. However, as I mentioned earlier, we cannot do it alone. We will continue, wherever we can and within the powers that we have, to make the best of what we can, but of course, there are a lot of other factors there, as I have said.”<sup>56</sup>

## Casgliadau ac Argymhellion

### *Datblygu Chwaraewyr a Hyfforddwyr*

110. Un maes pryder, a oedd yn gyffredin i'r tystion, yw cynaliadwyedd ariannol academiâu. Derbynnid nad oedd digon o gyllid i gefnogi academiâu i'r lefel angenrheidiol, yn enwedig y tu allan i UGC.

111. Teimlwn y dylai'r system academi chwarae rhan mewn pêl-droed ar lawr gwlad yng Nghymru. Os bydd clybiau'n mabwysiadu'r model 'canolfan gymunedol', bydd hyn yn cael ei gryfhau eto. Teimlwn y dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Chwaraeon Cymru edrych ar y rôl y gall academiâu ei chwarae, nid yn unig ar lefel UGC, ond hefyd mewn cynghreiriau is, er mwyn datblygu pêl-droed ar lawr gwlad a pha gefnogaeth all ac a ddylai fod ar gael i glybiau sy'n dymuno sefydlu trefniadau o'r fath.

112. Un mater y byddem yn hoffi gweld sylw'n cael ei roi iddo yw mynediad cyfartal i bob plentyn sydd eisiau chwarae pêl-droed, pa un a yw'n gallu fforddio

---

<sup>55</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012,

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

<sup>56</sup> Ibid

teithio, prynu'r dillad ac ati ai peidio. Teimlwn y dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru a llywodraeth leol wneud popeth posibl i sicrhau nad oes dim byd i rwystro'r rhai sydd eisiau cymryd rhan. Un ffordd o roi sylw i hyn fyddai edrych ar y posibilrwydd o sefydlu cronfa i gefnogi pobl ifanc o gefndiroedd tlotach (gan gynnwys cefnogaeth i deithio, prynu dillad a chyfarpar ac ati).

113. Rydym yn cydnabod bod llawer iawn o arian wedi'i fuddsoddi er mwyn datblygu hyfforddwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r ymateb i hyn gan bobl yn y gêm wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, un mater a godwyd oedd bod cael cymwysterau'n costio llawer, a dim ond i'r rhai hynny yn y drefn hyfforddi yng nghlybiau UGC yr oedd cefnogaeth ariannol ar gael.

114. Os pwrpas datblygu hyfforddwyr yw gwella safon y chwarae ar bob lefel, yna gellid dadlau bod angen datblygu hyfforddwyr ar bob haen. Rydym yn cydnabod nad oes llawer o adnoddau ariannol ar gael i wneud hyn, ond byddem yn annog Cymdeithas Bêl-droed Cymru i edrych ar bob ffordd o sicrhau bod clybiau y tu allan i UGC yn cael cymorth i fanteisio ar raglenni datblygu hyfforddwyr.

**Argymhelliad: Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Chwaraeon Cymru edrych sut y gellir defnyddio'r system academi i gefnogi pêl-droed ar lawr gwlad.**

**Argymhelliad: Dylai Cymdeithas Bêl-droed Cymru a Chwaraeon Cymru edrych a oes modd cynnig rhagor o gymorth ariannol i gefnogi pobl ifanc sy'n dymuno chwarae pêl-droed, ond sy'n cael anhawster i wneud hynny oherwydd y gofynion ariannol (e.e. costau prynu'r dillad, teithio ac ati).**

## 5. Materion Eraill

---

### Strwythurau rheoli cynghreiriau lleol

115. Mynegodd Peter Gomer o CLILC bryder wrth y pwyllgor fod angen diweddarau'r strwythurau rheoli cynghreiriau lleol ar gyfer pêl-droed yng Nghymru:

"[...] you will find that some league management structures are still based on the post-1974 arrangements and some are based on the pre-1974 arrangements. So, you can have three league management structures in one authority alone. Every year without fail, we get members beside themselves because children in their community are denied the opportunity to play with school colleagues because they live on the wrong side of the river in the same town [...] The leagues have never restructured, and, even if they did, I do not think that it would be the answer. There is a clause within the rule book that I used to get quoted to me on an annual basis, which, in my view, clubs used to hide behind, which is that, if they are not resident in their area, a young person must have approval from the league to play outside the league. It might seem a minor point, but it builds up such antagonism within communities that parents can withdraw their children altogether.

"[...] if we are to move forward again in terms of the development of the Welsh Premier League, all football in Wales and for participation in general, we seriously need to look at the league management structures in Wales, and bring them into 2012 rather than them staying in 1974 when they were established."<sup>57</sup>

116. Cyfaddefodd Jonathan Ford y gallai hyn fod yn broblem, ond bod yn rhaid ystyried rheolau UEFA a FIFA yn y cyd-destun hwn:

"We do receive letters with some concerns whereby the boundaries for where people can and cannot play are questioned. However, the rationale for that decision in the first place is to stop situations where children have to travel in excess of an hour or two hours to get to their local club. You then end up with difficult parental issues when kids want to play for Liverpool, say, but live in Bangor. That makes things extremely difficult. So, rules are put in place at a UEFA and FIFA level to ensure that the transportation can be managed locally. That does mean that boundaries

---

<sup>57</sup> Tystiolaeth Lafar, 23 Mai 2012, <http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8365/23%20May%202012.pdf>

need to be drawn in certain places and there are sometimes places where difficulties arise.”<sup>58</sup>

## **Materion cydraddoldeb**

117. Tynnodd Diverse Cymru sylw at nifer o faterion yn ymwneud â chydaddoldeb y credai fod angen edrych arnynt yn ystod yr ymchwiliad hwn, gan gynnwys angen parhaus i fynd i’r afael â hiliaeth a homoffobia ar y cae ac oddi ar y cae; y ffaith fod pêl-droed merched yn dal i gael ei weld yn israddol i bêl-droed dynion; a’r angen i glybiau ymestyn allan i ystod fwy amrywiol o gymunedau a chysylltu â grwpiau a sefydliadau sy’n hybu’r gamp i bobl a allai fod yn teimlo eu bod wedi cael eu cau allan, fel pobl o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig, pobl lesbiaidd, hoyw a deurywiol a merched.

118. Yn ôl y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, mae cyllid Chwaraeon Cymru i Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru wedi ei galluogi i gyflawni’r canlynol:

“Support major increases in participation with over 8,000 additional players registered with the FAW over the last two years, over 1,000 of these are from BME communities and 750 are those with disabilities. There are now over 100,000 men and boys and over 6,000 women and girls registered as players with teams and these numbers are increasing each year.”<sup>59</sup>

119. Mewn tystiolaeth i’r Pwyllgor, amlinellodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru yr hyn yr oedd yn ei wneud o ran cynhwysiant a chydaddoldeb:

“Inclusion

“In March 2012 the FAW signed up with Stonewall’s Diversity Champions Project to promote fair treatment for all. Andrew White, director of Stonewall Cymru said that the FAW’s commitment to the project was “a great step forward and signals the kind of leadership we hope to see more of in Welsh sport

“The FAW seeks to promote an environment in which all individuals, regardless of background, are offered a level platform on which to fulfil potential.

---

<sup>58</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012,

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

<sup>59</sup> WPL 24,

<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8148/Consultation%20Response%20-%20CELG4%20WPL%2024%20Minister%20for%20Housing%20Regeneration%20and%20Heritage.pdf>



## “BME Football

“At present we have 90,000 registered football players in Wales of which 3% are from BME backgrounds, Through the WFT’s newly launched Strategic Plan for the Development of BME Football in Wales 2012-14 the aim is to increase the number of registered players to 4% [...]

## “Women’s Football

“The FAW now invests 25% of international budgets into Women’s Football and will launch the National Women’s Premier League for the first time in the Autumn. A female representative will also be elected to the FAW Council in the present financial year.

“The FAW also fully endorses the Welsh Football Trust’s Strategic Plan for the Development of Women’s and Girls Football in Wales 2010-2013. Prior to the scheme there were 3,500 registered players in Wales – the achievable aim of a further increase of 40% is the next target by 2014.”<sup>60</sup>

120. Er hyn, tra’n cydnabod bod Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru a rhai aelodau o’r staff yng Nghymdeithas Bêl-droed Cymru yn mynd i’r afael â hiliaeth a homoffobia, roedd Clwb Pêl-droed Dinas Bangor yn feirniadol o’r gefnogaeth a oedd yn cael ei darparu gan gynghorwyr Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn y cyswllt hwn:

“The Welsh Football Trust and certain employees of the FAW are doing some great work in tackling [racism and homophobia] [...] yet as mentioned previously, the 37 councillors show little interest in any of the above. All clubs in the WPL run a two week initiative on ‘Show Racism the Red Card’ along with an annual event in the community [...] again this is supported by the FAW employees, yet no councillors or FAW staff attend any of the matches or event to support the clubs. The FAW councillors once elected should be mandated that part of their responsibility is to support all forms of events that are encouraged by the FAW and WPL.”<sup>61</sup>

---

<sup>60</sup> Gwybodaeth ychwanegol gan Gymdeithas Bêl-droed Cymru, <http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8499/Additional%20Written%20Information%20-%20CELG4%20Football%20Association%20of%20Wales.pdf>

<sup>61</sup> Gwybodaeth ychwanegol gan Clwb Pêl-droed Dinas Bangor, <http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8500/Additional%20Written%20Information%20-%20CELG4%20Bangor%20City%20FC.pdf>

## Statws annibynnol Cymru yn FIFA

121. Mynegodd yr ystadegydd Mel Thomas bryderon dwys wrth y Pwyllgor ynglŷn â sefyllfa fregus Cymru o fewn FIFA, gan ddweud bod aelodaeth Cymru'n un freintiedig sy'n seiliedig ar greu'r Bwrdd Pêl-droed Rhyngwladol (IFAB) a statws hanesyddol gwledydd Prydain fel sefydlwyr y gêm. Galwodd am well cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn:

“Politically this is becoming less stable. Moves have been made in the past by Asian and African FIFA members to try and overturn this privilege and was one of the reasons the late Alun Evans set up the WPL – to publicise our identity to the world.

“It is important that we maintain this identity at all costs. This has not been made easy of late with the English FA grabbing headlines – and little support – for a challenge on the FIFA Council. Couple this with Scotland's possible, or even probable, political independence then our position becomes even more precarious.

“It is therefore important that the WAG recognises this and that Welsh football is looking to them to support – without conditions – this independent status and that it does nothing to undermine the status quo.

“The Welsh Government could do a great deal politically to enhance or support our independent status by really bringing it out when Ministers and various others working for the Welsh Government go to other countries. They can emphasise the independence that Wales already has, and not just in football matters. The Government needs to recognise the independence that we have and that we need to cherish it; otherwise, we will lose our national team and become just another area association of the English FA.”<sup>62</sup>

122. Pan ofynnwyd i Dr Huw Jones o Chwaraeon Cymru a oedd yn poeni ynglŷn â hyn dywedodd:

“Am I concerned about it? We must always have one eye open to the potential for concern. If you think that this institution is political, you should spend a bit of time in my world and you will see that it is equally hugely political. You can layer onto that FIFA and UEFA, and the politics and even the corruption that has taken place over recent years. There are

---

<sup>62</sup> WPL 21, <http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s7341/Consultation%20Response%20-%20CELG4%20WPL%2021%20Mel%20ap%20Ior%20Thomas.pdf>

real concerns about how things are done and how deals are made. There is no doubt that there is jealousy about the independent role of the four independent home nations, and there are many countries throughout the world that would like to see one British team taking part, just to reduce numbers. That story has been around for a long time and will continue to be around. We must have one eye on that moving forward. I do not think that it is a major worry at the moment, and I do not think that the situation regarding the GB football team will exacerbate the situation, unless certain politicians continue to keep on pressing about that type of team.”<sup>63</sup>

## **Casgliadau**

### ***Materion Cydraddoldeb***

123. Mae cydraddoldeb yn fater pwysig i'r Pwyllgor. Rydym yn falch o'r strategaethau sydd wedi cael eu cyflwyno er mwyn gwella cydraddoldeb. Byddem yn annog Cymdeithas Bêl-droed Cymru ac Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru i barhau â'u gwaith da.

124. Tynnwyd sylw at un maes sy'n peri pryder i ni yn y dystiolaeth gan Glwb Pêl-droed Dinas Bangor ynglŷn â'r rhan a chwaraeir gan gynghorwyr y gymdeithas bêl-droed mewn mentrau o'r fath. Mae'n amlwg nad yw'n ddigonol cael nifer o strategaethau. Yn ogystal â'r strategaethau hyn rhaid cael cefnogaeth i'w gweithredu gan bawb. Rydym yn gobeithio y bydd Cymdeithas Bêl-droed Cymru'n ceisio rhoi sylw i hyn.

### ***Statws annibynnol Cymru yn FIFA***

125. Mae hwn yn bwnc sy'n cael ei drafod ers blynyddoedd. Ein barn ni yw y dylai Cymru gadw ei statws annibynnol fel gwlad yn FIFA. Fodd bynnag, nid ydym yn teimlo ei bod yn briodol i ni wneud rhagor o sylwadau ar y mater hwn.

---

<sup>63</sup> Tystiolaeth Lafar, 13 Mehefin 2012, <http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s8799/13%20June%202012.pdf>

## Tystion

---

Darparodd y tystion canlynol dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn llawn ar <http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ielssueDetails.aspx?Ild=3280&Opt=3>

### *25 Ebrill 2012*

Jonathan Ford	Prif Weithredwr, Cymdeithas Bêl-droed Cymru
John Deakin	Ysgrifennydd, Uwch Gynghrair Cymru
Neil Ward	Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru
Tom Morgan	Cyn-chwaraewr a chyn-reolwr yn Uwch Gynghrair Cymru

### *9 Mai 2012*

Mel Thomas	Ystadegydd pêl-droed
Gareth O Jones	Cadeirydd, C.P.D Tref Caerfyrddin
Gwynfor Jones	Ysgrifennydd y Clwb, Clwb Pêl-droed Dinas Bangor
John Loosemore	Cadeirydd annibynnol Corff Trwyddedu Clybiau Uwch Gynghrair Cymru

### *23 Mai 2012*

Gareth Williams	Prif Weithredwr, Rondo Media
Emyr Davies	Uwch Gynhyrhydd a Cyfarwyddwr, Rondo Media
Peter Gomer	Cynghorydd Polisi Interim (Hamdden, Diwylliant, Twristiaeth a Threftadaeth), Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
David Phenis	Rheolwr Datblygu Cymunedol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

### *13 Mehefin 2012*

Huw Lewis	Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth, Llywodraeth Cymru
Jon Beynon	Y Gangen Polisi Chwaraeon, Llywodraeth Cymru
Dr Huw Jones	Prif Weithredwr, Chwaraeon Cymru
Jonathan Ford	Prif Weithredwr, Cymdeithas Bêl-droed Cymru
Gwyn Derfel	Ysgrifennydd, Uwch Gynghrair Cymru

## Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

---

Darparodd y bobl a'r sefydliadau canlynol dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn ar

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=3280>

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Neil Gibson	WPL 01
Liam Griffiths	WPL 02
Matthew Davies	WPL 03
Philip Lloyd	WPL 04
Matthew Jones	WPL 05
Gareth Jones	WPL 06
Anthony Oldfield	WPL 07
David Collins	WPL 08
Gareth Williams	WPL 09
Robin Evans	WPL 10
Dic Mortimer	WPL 11
Cymdeithas Bêl-droed Cymru	WPL 12
Dienw	WPL 13
Diverse Cymru	WPL 14
S4C	WPL 15
Russell Todd	WPL 16
Jeff Michael	WPL 17
Kevin McNab	WPL 18
Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru	WPL 19
Tom Morgan	WPL 20
Mel ap Ior Thomas	WPL 21
Rondo Media	WPL 22
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	WPL 23
Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth	WPL 24

BBC	WPL 25
Jim Kerr	WPL 26
ITV Cymru	WPL 27
Gwilym Boore	WPL 28
Anthony Delaney	WPL 29

*Debyniwyd gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol gan y sefydliadau canlynol:*

C.P.D. Tref Caerfyrddin

Cymdeithas Bêl-droed Cymru

Clwb Pêl-droed Dinas Bangor

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Gwyn Derfel